# ECO'R WYDDFA

RHIF 17 GORFFENNAF 1977 PRIS 10c


## Cofiwch...

**... na fydd rhifyn o *Eco'r Wyddfa* yn cael ei gyhoeddi y mis nesaf. Mae pawb angen gwyliau! Daw y rhifyn nesaf allan ddydd Iau, Medi 1af.**

Oherwydd prinder lle ni fu'n bosibl cynnwys adroddiadau a lluniau dirifedi a dderbyniwyd o weithgareddau'r Jiwbili o bob stryd yn yr ardal

**Portread o faes glanio awyrennau oedd thema Cân Actol ysgol Gwaun Gynfi Deiniolen a ddaeth yn fuddugol trwy Gymru benbaladr eleni yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Y Barri. Mae rhan helaeth o'r clod yn mynd i Mrs. Williams, eu hyfforddwr ac mae'r *Eco'n* sicr fod plant Deiniolen yn ddiolchgar iddi am ei gwaith mawr. Lwc owt Llanelwedd, mae hogia Deiniolen am lanio eto!**

# GLANIO'N GYNTAF —



# Llwch Y Chwarel

## DAL I DDISGWYL AM PEARSON

**GWŶR heini, hwy a grinant – gan y llwch,**
**Ac yn llesg yr aethant;**
**I'r chwarel ni ddychwelant:**
**Henwyr caeth yn hanner cant.**

**DYMA englyn Meirion Hughes, Caernarfon i "Glefyd y Llwch", ac fe gytunwch ei fod wedi gallu darlunio mewn ychydig o eiriau sefyllfa wirioneddol druenus sy'n bodoli, gwaetha'r modd, yn ein bro. Nid oes angen i *Eco'r Wyddfa* fanylu llawer ar y sefyllfa yma – mae yna ormod o lawer yn y fro yn dioddef oddi wrth y melltith yma a llaweroedd yn gorfod cario croes drom iawn. Maent wedi dioddef yn ddistaw ar hyd y blynyddoedd, os rhywbeth – yn rhy ddistaw.**

**Rhaid i ni fel trigolion bro chwarelyddol weiddi'n uwch ac yn uwch am iawndaliadau sy'n ddyledus i'r dynion a'r teuluoedd hyn. Toes dim modd ysgafnhau pwysau'r groes – ond mae modd cael cymorth i'w chario.**

**Un sydd wedi dioddef am flynyddoedd o'r afiechyd hwn yw Mr. Edward Thomas, Llanberis, un o ohebwyr *Eco'r Wyddfa*. 'Roedd yn awyddus iawn i ddarllenwyr yr *Eco* gael darllen am y sefyllfa fel ag y mae ar hyn o bryd. Ysgrifennodd at Aelod Seneddol Arfon, Mr. Dafydd Wigley, un sydd wedi ymladd yn galed iawn yn y Senedd am iawndaliadau i'r cyn-chwarelwyr, am gefndir i'r sefyllfa. Mae'n bleser gan *Eco'r Wyddfa* gyhoeddi ei ymateb parod:**

Nid oes angen, yn ardal *Eco'r Wyddfa*, fanylu am faint y dioddef o effeithiau llwch y chwarel. Prin bod yna deulu yn y cylch sydd heb fod â pherthynas, ffrind neu gymydog yn dioddef o'r afiechyd yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig â'r chwarel. Dyma paham y mae Dafydd Elis Thomas a minnau, ynghyd ag aelodau seneddol eraill, wedi pwyso dros y tair mlynedd diwethaf i gael newid y gyfundrefn fudd-daliadau i ennill iawndal teilwng i'r dynion sydd wedi colli eu hiechyd, ac i weddwon y rhai a gollasant eu bywyd oherwydd y llwch.

### DAU DDATBLYGIAD

Y ddau ddatblygiad yn ystod y blynyddoedd diwethaf sydd yn gefndir i hyn, yw'r achosion llwyddiannus a gymerwyd yn y gyfraith, am iawndal i rhai sydd yn dioddef o *pneumoconiosis*. Gwnaed y cytundeb ym 1974 yn sgil achosion cyfreithiol yr oedd yr NUM yn eu cymryd yn erbyn yr NCB.

### CYNLLUN LLYWODRAETHOL I'R CHWARELWYR

Yr hyn yr wyf innau, ac eraill, wedi ei ddadlau yw y dylid estyn yr un chwarae teg o iawndal i'r chwarelwr, y cyn-chwarelwr a'i deulu â'r hyn a gaiff y glowr. Nid yw cynllun y glowyr yn berffaith, ond mae'n gam sylweddol yn y cyfeiriad iawn. Ein dadl yw fod yna fwy o achos i gael cynllun llywodraethol i'r chwarelwyr, oherwydd i gymaint o hen gwmniau y chwareli beidio â bod, – megis gyda chwarel Dinorwig, – ac oherwydd hyn nid oes cyfle i'r cyn-chwarelwyr ddod ag achos yn erbyn eu cyn-gyflogwyr. O ystyried yr iawndal y mae chwarelwyr a'u teuluoedd wedi ennill er enghraifft yn Nyffryn Ogwen, – ble y deallaf fod iawndal i fyny i ryw £8,000 wedi ei dalu, – mae'n amlwg fod cyn-weithwyr yn y chwareli sydd wedi cau yn colli allan yn sylweddol. **Gyda llaw, dylai'r rhai a fu'n gweithio mewn chwareli megis Penrhyn a Phenyrorsedd, sydd yn dal yn weithredol, beidio ag oedi os y credant fod posibl iddynt gael iawndal, rhag ofn i dreigl amser eu rhwystro.**

### COMISIWN PEARSON

Pan bwysais y mater gyntaf, ym 1974, ymateb y Llywodraeth oedd eu bod yn "ymwybodol o'r teimladau yng ngogledd-orllewin Cymru am gynllun iawndal i'r chwareli llechi. Mae'r mater o dan ystyriaeth." Er i'r Llywodraeth yrru 'mlaen gyda'u cynllun o £100 miliwn i helpu'r glowyr, gwrthodasant weithredu cynllun i'r chwarelwyr gan fod y mater o iawndal sifil yn cael ei ystyried gan Gomisiwn Pearson, a oedd wedi ei sefydlu ym 1972. "Ni fyddai'n addas newid y gyfraith cyn cael adroddiad y Comisiwn

trosodd

# ECO'R WYDDFA

**RHIF 17 GORFFENNAF 1977**

**Golygydd:**
Arwel Jones,
Gwên-y-Wawr,
Glanffynnon,
Llanrug.
*Ffôn: Caernarfon 3719*

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd,
Nant Peris.


DIOLCH yn fawr i'r canlynol am eu cyfraniadau tuag at gostau rhedeg *Eco'r Wyddfa:* £1: Mr. a Mrs. S. Morris Y Fachell, Llanddeiniolen; Parti Jiwbili, Cylch Racca, Penisarwaun; Mrs. G.M. Jones, Y Dalar Deg, Llanrug.

**LLWCH CHWAREL**
*(parhad o dud. 1)*

Frenhinol" oedd geiriau' Twrne Cyffredinol, Sam Silkin.

Gofynnwyd nifer sylweddol o gwestiynau seneddol gan Dafydd Elis Thomas a minnau ynglŷn â'r mater; codwyd ef mewn dadleuon yn y Tŷ, a gosodwyd cynigion i'w trafod. Rhoddasom ein tystiolaeth i Gomisiwn Pearson, fel y gwnaeth llawer i unigolyn a chymdeithas arall yn y cylch. Mynnai'r Llywodraeth ddisgwyl am yr Adroddiad. Ar 25ain Mawrth, 1975, dywedodd y Gweinidog, Brian O'Malley, AS., fod y Llywodraeth yn disgwyl yn eiddgar am ganlyniad ymchwiliad Pearson i'r mater. Ar ddydd Gŵyl Ddewi 1976, dywedodd y gweinidog newydd y byddai'r adroddiad wedi ei gwblhau erbyn diwedd 1976. Ar yr 8fed o Orffennaf, 1976 cyfaddefodd y Prif Weinidog, Mr. Callaghan, nad oedd yna ddadl resymegol paham y dylid cyfyngu'r iawndal i lowyr yn unig, – ond eto ychwanegodd y byddai'n rhaid disgwyl am Pearson cyn gweithredu.

**DIM DYDDIAD PENDANT**

Ni ymddangosodd yr Adroddiad cyn diwedd 1976 fel y disgwylid. Mewn llythyr ataf ar 16eg o Dachwedd y llynedd, dywedodd Ysgrifennydd y Comisiwn na allai roddi unrhyw ddyddiad pendant, ond y dylai fod yn ystod 1977. Ar 7ed o Fawrth eleni, ysgrifenais at Mr. Callaghan, gan ofyn a fyddai'n dod â mesur i helpu'r chwarelwyr ymlaen ar fyrder, gan fod y Mesur Datganoli wedi colli'r dydd, a fod ganddo amser i **beidio** â chyflwyno unryw ffurf o iawndal newydd i'r rhai yn dioddef o afiechyd diwydiannol cyn adroddiad Pearson". Ar 10fed o Fawrth, dywedodd y Prif Weinidog y dylai'r adroddiad fod allan "yn ystod eleni". Bûm ar y ffôn fy hun gyda'r Comisiwn yn ystod wythnos olaf mis Mai, a dywedwyd wrthyf na fyddai'r adroddiad allan yn sicr cyn yr Hydref.

*Bryn*
*Llys Gwyn,*
*Caernarfon.*

*Annwyl Olygydd,*

*Ynglŷn â'r llythyr yn* **Eco'r Wyddfa** *Rhif 15 gan Mr. J. Emlyn Jones, Parc Isaf, Llanrug.*

*Cefais innau dipyn o fraw pan es i Gaeathro, i gyfrannu ar ran y teulu tuag at dacluso'r fynwent yno, yn enwedig Cof Golofn fy ewythr y Parch. John Roberts Ieuan Gwyllt. Nis gallwn fynd yn agos ati er fy syndod. Flynyddoedd yn ôl, bu Cymanfa yng nghapel Moreia, Caernarfon, i ddathlu canmlwyddiant ei lyfr tonau, ac wedi hynny aethom i Gaeathro lle 'roedd cyfarfod yn cael ei gynnal wrth y Gofgolofn.*

*Nid wyf yn cofio dan ofal pwy oedd y cyfarfod ond, mi glywais ef yn dweud, "'Does dim eisiau cofgolofn i Ieuan Gwyllt, mae hwn yn ddigon o gofgolofn iddo meddai," a Llyfr Tonau Ieuan Gwyllt yn ei law. Dywedodd hefyd, "Gallaf eich sicrhau y byddwn ni, y Methodistiaid Calfinaidd o hyn ymlaen yn edrych ar ôl y gofgolofn hon.*

*Fe gychwynnodd Ieuan Gwyllt ar daith i'r America i gynnal Cymanfaoedd, ond cymerwyd ef yn wael, a bu farw ymhen pythefnos.*

*Ei briod oedd Jane Richards, Rhydyfarian, ger Aberystwyth, sef chwaer i fy nhad.*

*Mae "oil paintings" o Ieuan Gwyllt ar gael i'w fenthyca os byddai rhywun yn dymuno. Capel Coch, Llanberis efallai?*

*Yn gywir,*
*(Mrs.) E. Owen*

Felly, dal i ddisgwyl yw'r hanes, y Llywodraeth yn benstiff yn eu bwriad o beidio ag ildio modfedd cyn i'r adroddiad ymddangos, ac yn y cyfamser dwsinau o gynchwarelwyr yn marw o effaith y llwch, a'u teuluoedd yn cael fawr ddim help ariannol; mae'r 55 ceiniog yr wythnos wedi aros yr un fath dros 9 mlynedd. **Pebai'r Llywodraeth wedi cymryd yr un agwedd tuag at y glowyr ag y maent wedi ei gymryd tuag at chwarelwyr, byddai gwrthryfel ddiwydiannol ar eu dwylaw.** Ond nid yw nerth y glowyr gan weddwon y chwarelwyr, a Llywodraeth sydd yn gwrando ar nerth, nid chwarae teg, sydd yn teyrnasu."

# LLYTHYRAU

*Swn y Gwynt,*
*Llanberis.*

*Annwyl Olygydd,*

*Gwelais yn y rhifyn diwethaf o'r* **Eco**, *mai fi a enillodd Gwpan Padarn am bysgota pluen y tro olaf y bu cystadlu amdani. Nid yw hyn yn gywir. Pedair gwaith y bu cystadlu am y gwpan. Y tro cyntaf ym mlwyddyn Jubilee Brenin Siôr V, a fi a enillodd y gwpan a'r diweddar Ifor Williams (Aber) Cwm-y-glo y pen arall i'r cwch. Y flwyddyn wedyn Alun Morris (Y Gof) o Fethesda a'i enillodd. Y drydydd flwyddyn y fi a'i enillodd gyda'r diweddar Sacheus Rowlands ym mhen arall i'r cwch, ond y tro olaf y bu cystadlu amdano, y diweddar Bob Jones o Frynrefail a'i enillodd.*

*Yn gywir,*
*David J. Roberts*

*Annwyl Olygydd,*

*Os oes gan rhywun hen arfau chwarel neu luniau o ddiddordeb mewn perthynas â Chwarel Dinorwig ac yn barod i'w rhoi i'r Amgueddfa yn Llanberis byddwn yn falch iawn o'u derbyn neu adael imi wybod amdanynt.*

*Yn gywir iawn,*
*Ceidwad Yr Amgueddfa*

# Cronfa Wmffra

**Dyma'r rhestr derfynol o gyfrannwyr i Gronfa Goffa Wmffra Roberts. Diolch o galon i bawb am eu haelioni. Bydd y cyfanswm o £1,513 yn cael ei drosglwyddo i Gronfa'r Swyddfa er mwyn cael gwneud gwelliannau i'r swyddfa ym Mhenllyn. Mae carreg ar fur y Swyddfa eisoes i goffau y cenedlaetholwr mawr hwn.**

**50c:** Mrs. Ann Jones, Penygroes (eto);
**£1.00:** Ken Crisfield, Talysarn; M.L. Williams, Llanrug; Eric Jones, Pontllyfni (eto); Mrs. J.M. Jones, Llanberis; Anita Jones, Carmel; Wm. Hughes, Pencaenewydd; Marian Elias, Clynnog; Parch. a Mrs. W.R. Williams, Y Felinheli; Mr. a Mrs. N. White, Talysarn Mr. a Mrs. E. Owen, Talysarn; Mr. a Mrs. R. Owen, Talysarn; Mrs. E. Williams, Nantlle; M. Roberts Caernarfon; Mrs. E.E. Jones, Caernarfon; Mrs. A. Williams, Penygroes; J. Misserotti, Caernarfon.
**£1.50:** Teulu Llety, Penygroes; Mr. a Mrs. T.Y. Jones, Ontario
**£2.00:** Mr. a Mrs. H. Jones, Llanllyfni; Mr. a Mrs. J.H. Hughes, Cricieth; Mr. a Mrs. E. Jones, Penygroes; Mr. a Mrs Rol Williams, Waunfawr; Mr. a Mrs. T.E. Griffiths, Caernarfon; Miss N. Jones, Bontnewydd; E. Humphreys, Penygroes; H.R. Hughes, Llandwrog; Medwen Jones, Penygroes; C.P. Williams, Cricieth; Mr. a Mrs. T. Griffiths, Penygroes; Rita Owen, Penygroes; G. ag M. Roberts, Llanrug; Mr. a Mrs. E. Morris, Talysarn; Mr. a Mrs. T.E. Jones, Llanrug; Mr. a Mrs. A. Roberts, Penygroes; Mrs. D.A. Parry, Penygroes; Mr. a Mrs. W. Williams, Penygroes, G. ac A. Elis, Bethel; Beryl Owen, Penygroes; Mr. a Mrs. E. Hughes, Nantlle; Mr. a Mrs. I. Roberts, Penygroes.
**£3.00:** Cangen Deiniolen; Ifanwy Rhisiart, Waunfawr; Mr. a Mrs. R.A. Roberts, Y Felinheli; Mr. a Mrs. H. Thomas, Talysarn; Evan T. Parry, Ceunant; Jim Parry, Caernarfon.
**£3.50:** Ysgol Gynradd Talysarn.
**£4.00:** Mr. a Mrs. M. Williams, Penygroes.
**£5.00:** Elwyn Roberts, Bodorgan; M. Pritchard, Nant Peris; O.M. Roberts, Conwy; Mr. a Mrs. C. Pari, Bontnewydd; Mr. a Mrs. J.H. Williams, Mynytho; Beti Elias, Cricieth; T. Thomas, Llanrug; Mr. a Mrs. W.R. Evans, Penygroes; Mrs. M. Evans, Caernarfon; Gwyn Jones, Efailnewydd; G. & H. Sutherland, Deiniolen; T. a V. Ellis, Groeslon; Mr. a Mrs. C. Jones, Bontnewydd; E.W. Thomas Fron; E. a O. Roberts, Penygroes; Mr. a Mrs. R.T. Jones, Penygroes; W. a D. Davies, Penygroes; Ann Beynon, Llanfairfechan; Mr. a Mrs. R.D. Morris, Bontnewydd; Mr. a Mrs. D.W.E. Jones, Caernarfon; H. ac E. Gwynn, Llanrug; Beryl Fretwell, Penygroes; M. ac E. Parry, Penygroes; Mrs. J. Jones, Bryncir; Mr. a Mrs. R.A. Jones Bryncir; John Pockett, Waunfawr; Wil a Donna, Penygroes; Mrs. K. Pritchard, Rhoshirwaun; Mr. a Mrs. E.H. Griffith Botwnnog Mr. a Mrs. W. Povey, Penygroes; I. ag A. Roberts, Wrecsam; A. ag N. Ifans, Rhostryfan
**£10.00:** Glyn Thomos, Penygroes; Idris Owen, Caernarfon; Nerys ac Elin Angharad; Cangen Nefyn; Mr. a Mrs. E.E. Wigley, Bontnewydd; Mr. a Mrs. C. Clowes, Llanaelhaearn; Mr. a Mrs. Jones, Chwilog; E.P. Williams, Llanedwen; L. a V. Jones, Nantlle
**£20.00:** Cangen Waunfawr; Cangen Llanllyfni a Nebo; Maldwyn Lewis,Tremadog
**£25.00:** Ann, Marian, Dylan ac Iwan; Cyfaill
**£30.00:** Cangen Cricieth
**£50.00:** Cangen Bontnewydd


**10%** oddi ar Bapur Wal a Phaent Leyland & Jellipex yn

**E.WILSON HUGHES**
**84 Stryd Fawr**
**LLANBERIS**

*Ffôn: Llanberis 491*

**MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD**


# YM MYD MODURO



**PAN mae'r tywydd yn boeth, mae gofyn sicrhau bod lefel hylif eich batri yn ddigonol.**

**Pan yn dadmer eich rhewgell, beth am gadw'r dwr mewn potel (dim mewn llestr metel) gan fod hwn yn bur ac yn ddelfrydol i'r pwrpas yma. Da chi, peidiwch byth â defnyddio dŵr o'r feis, mae hwnnw'n gwbl anaddas.**




# WAUNFAWR

**CLWB GWYRFAI** – Llywyddwyd y cyfarfod ar Fai 26 gan y Parch. E. Trefor Jones a siaradwyd ar bynciau amrywiol gan Mrs. M. Morgan Jones, Mrs. Mwynwen Jones, Mrs. M. Awstin Jones a Mr. Idris Humphreys.

Etholwyd y swyddogion calynol ar gyfer y tymor nesaf: **Llywydd Anrhydeddus:** Mrs. Nancy Miles; **Llywydd:** Y Parch. E. Trefor Jones; **Is-lywyddion:** Mrs. Morgan Jones, Mr. J. Awstin Jones a Mr. W. Vaughan Jones; **Ysgrifennydd:** Mrs. M.O. Parry Williams; **Trysoryddion:** Mr. William Jones a Miss Gwladys Lewis. **Aelodau eraill y pwyllgor fydd:** Mrs. E. Lewis; Mrs. L. Idris Jones; Mrs. W. Lloyd Jones. Miss Oweilda Williams, Mr. Idris Humphreys a Mr. Owen Williams.

Aeth aelodau'r clwb am eu trip blynyddol ar Fehefin 15. Cafwyd pnawn braf yn Llandudno, gwledd yng Nghonwy a thaith ddifyr yn ôl drwy Ddyffryn Conwy. Diolchwyd i'r ysgrifennydd, Mrs. Idris Jones, am drefnu gwibdaith mor lwyddiannus.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Nos Iau, Mehefin 2, llywyddwyd gan Mrs. Morfa Evans, Preswylfa a chafodd yr aelodau noson ddiddorol yn gwylio Mr. Derek Rees o Gaernarfon yn dangos sut i drin gwalltiau. Diolchwyd iddo gan Mrs. Benson, Mrs. Faulkner, Mrs. Parry Williams a Miss M. Roberts oedd y gwesteiwyr a Mrs. Faulkner a roddodd y blodau. Enillwyd y raffl (a roddwyd gan Mrs. K. Wyn Jones) gan Mrs. Parry Williams.

Nos Fawrth, Mehefin, 21, bu'r aelodau ar daith gerdded at Garreg Fawr a Betws Garmon a chael swper yng Ngwesty Parc Eryri (Snowdonia Park Hotel).

**MERCHED Y WAWR** – Yng nghyfarfod mis Mai ymunodd Cangen Merched y Wawr Bethel â'n cangen ni mewn noson hwyliog iawn, pryd y cafwyd cwis ysgafn dan ofal Mrs. Helen Parry a Miss Phyllis Ellis. Llywyddwyd y noson gan Mrs. Nellie Williams a threfnwyd lluniaeth ysgafn gan aelodau'r pwyllgor. Rhoddwyd y raffl gan Mrs. Nan Huws-Roberts a'r enillydd oedd Mrs. Mary Wyn Jones, Bethel.

Penderfynwyd cael trip nos Iau, Mehefin 23.

**CLWB Y MAMAU A'R GWRAGEDD IEUAINC** – Dymuna aelodau'r clwb ddiolch i bawb am eu cefnogaeth amser y Jiwbili. Dydd Mawrth, Mehefin 7 cafwyd parti a chwaraeon i blant o dan 12 oed yn y prynhawn a "Disco" i blant a phobl ifanc yr ardal gyda'r nos.

Yn y ddau gyfarfod cyflwynwyd cwpan Jiwbili i'r plant gan Mrs. Idris Jones ar ran y clwb a chyflwynwyd anrheg Jiwbili i Mrs. Jones gan aelodau'r pwyllgor. Dymuna'r clwb ddiolch i'r Eglwys am gael defnyddio'r Neuadd ac i Michael Hanlon a Colin Rowlands am eu gwaith arddercog a llwyddiannus fel "D.J's" yn y "Disco". Ac hefyd i lawer o wragedd yr ardal am eu cymorth i baratoi'r neuadd a'r bwyd.

**CYMANFA DEONIAETH ARFON**, – Mehefin 5. Yr oedd Eglwys Sant Ioan dan ei sang o eglwyswyr Llanaelhaearn, Llandwrog, Llanwnda, Groeslon, Caernarfon, Betws Garmon a'r Waunfawr. Cymerwyd rhan yn y gweithgareddau gan y Parchn. Glyndwr Williams, Trefor Jones, Idris Jones, Emrys Edwards, H. Griffith ac E.R. Williams a chafwyd pregeth fer gan y Deon Gwlad, Canon Alun Jones, Llanberis. Arweiniwyd y canu gan Mr. Maldwyn Parry, Penygroes a'r organyddes oedd Mis. Margaret Roberts, Waunfawr.

Paratowyd gwledd i'r dieithriaid yn Neuadd yr Eglwys gan ferched y plwy, a diolchwyd iddynt am eu haelioni.

**(O.N. Collodd rhywun hen lun o weithwyr y GPO yn ystod y wledd – mae ar gael gan Mrs Chadwick).**

Aeth trip yr Eglwys i Ddinas Caer a'r Sw ar Fehefin 18.

**CYFARFODYDD PREGETHU** – Y Parchn. Meurig Roberts ac O.R. Parry oedd yn pregethu yng Nghapelau Bethel a Chroesywaun yng Ngŵyl Bregethu'r Sulgwyn.

**YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL** – Bu rhai o swyddogion Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon a'r Cylch 1979 yn cyfarfod y Cyngor Cymuned i sôn am y galwadau ariannol fydd ar y dosbarth. Trefnwyd cyfarfod cyhoeddus ar Fehefin 14. Daeth amryw ynghyd ac ar ôl trafodaeth hir codwyd 6 o'r rhai oedd yn bresennol i fod yn gnewyllyn i'r pwyllgor ardal a phasiwyd i ofyn i bob mudiad yn y pentref ddewis un cynrychiolydd ar y pwyllgor.

**NOSON GOFFI** – Cynhaliwyd noson lwyddiannus iawn yn Neuadd yr Eglwys er budd plant â nam meddyliol arnynt gan Gymdeithas Caernarfon a'r Cylch. Yr oedd y Neuadd yn orlawn, ffair arddercog, a gwnaed elw o £350.

**Y CARNIFAL** – Dan nawdd yr Ysgol Feithrin fe baratowyd rhaglen amrywiol o hwyl a sbri. Y beirniaid fydd Mr. a Mrs. Richard Morris Jones o'r BBC a chwmni'r Pibydd Brith fydd y Gwahoddedigion Anrhydeddus. (Gweler Dyddiadur y Mis).

**LLONGYFARCHIADAU A DYMUNIADAU DA** – i Mr. a Mrs. R. Jones Minffordd ar gael merch fach (Kailey Marie); Mr. a Mrs. David Beech, Rosemount ar gael mab bychan (Martin Charles); Mr. a Mrs. Lee Whittle, Pant y Cerrig ar eu priodas yn Eglwys Crist, Caernarfon; Mrs. Jane Jones, 9 Tref Eilian ar ei phenblwydd yn 90; Mr. Dewi Jones, Dôl y Coed ar ei lwyddiant yn arholiadau Arolygwyr Treth Incwm.

**LLONGYFARCHIADAU HEFYD** – i'r tîm a gyrhaeddodd rownd derfynol Tlws Eco'r Wyddfa: Gwyneth Williams (Capten); Marion Iwan; Gillian Wyn; Jennifred Jones; Cristine Davies; Sharon Parry; Margaret Denton; Jean Jones, Barbara Griffith; Edwina Walters ac Einir Shepherd.

**GWAELEDD**– Dymunir adferiad buan i Mrs. Jones, Treflys, Mrs. Jeorgeson, 2 Tref Eilian a Mr. Francis Williams, Bryn Golau sydd yn yr ysbyty, ac i Miss Marion Wyn Jones, Dôl Erddi, Mrs. Laura Williams, Tros Gors, Miss Anna Lloyd Hughes, Treflan a Mr. William Jones, Gilfach sydd newydd ddod oddi yno. Hefyd i Mrs. M. Lloyd Jones, Bryn Tawel, Mrs. J.A. Owen, Dolerddi a Miss Rosa Hughes, 1 Tref-eilian a anafwyd gartref.

**CYDYMDEIMLWN** – â Mr. Owen Owen, Glennydd a Mr. Robert Owen, Caemabynyr (Colli brawd) a Mrs. Buddug Rowlands, Trewen (colli chwaer-yng-nghyfraith).

**Y BLAID** – Bu amryw o aelodau am dro heibio Hafod Olau – cartref y John Evans a aeth i chwilio am yr Indiaid Cymreig ar lannau'r afon Missouri – ac at Hafod y Rhug – cartref ei daid a groesawodd Howell Harris i'w dŷ ar ei daith yng Ngogledd Cymru.

**GŴR GWADD**– Eurig Wyn oedd y Gŵr Gwadd yn Ysgubor Lawen Gwynfryn Llanystumdwy ar nos Sadwrn, Mehefin 9.

**CROESO I'R WAUN** – i Mr. a Mrs. Robert Williams o Scotia, New York. Mae Mrs. Williams yn gyfnither i Mrs. Morgan Jones, Pant Cae Haidd. Magwyd y ddau yn yr Unol Daleithiau ond maent yn siarad Cymraeg yn rhugl.

# PENISAR WAUN

**GŴYL PENISARWAUN** – Gyda noson o fabolgampau cafwyd agoriad ardderchog i'r Ŵyl. Yr oedd y tywydd yn oer ond yn sych a'r dorf a'r cystadleuwyr yn niferus a hwyliog.

Mae'r Pwyllgor yn diolch i Miss A.M. Williams, athrawes y pentref, am ei rhodd, caredig tuag at yr achos; ac hefyd i Mrs. M.J. Roberts, Tai Creosion am ofalu bod cae ar gael i gynnal y mabolgampau.

Ceir adroddiad o'r Ŵyl yn rhifyn nesaf o'r Eco.

**NOSON DDISGO** – Gohirwyd noson ddisco y plant i nos Wener, Gorffennaf 1af yn Neuadd yr Eglwys. Bydd plant yr Ysgol Gynradd yn cael mynd o 6.30 hyd 8.00 am 15c a phlant yr Ysgol Uwchradd o 8.00 – 10.00. am 20c.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Cafodd yr aelodau wahoddiad i Ddeiniolen nos Lun, Mehefin 13 i wrando ar Mrs. Dilys Williams yn rhoi adroddiad o'i hymweliad â'r Albert Hall yn Llundain i'r Cyfarfod Blynyddol. Cafwyd croeso mawr gan aelodau Deiniolen a chyngerdd ardderchog i gloi'r noson.

Bydd cyfarfod nesaf y Sefydliad yn yr ysgol nos Lun, Mehefin 27, pryd y gobeithir cael "Bring and Buy".

**CAPEL Y WAUN** – Bore Sul, Mehefin 19 cyflwynwyd testament i'r tair merch ifanc a dderbyniwyd yn gyflawn aelodau rhyw dair wythnos yn ôl, sef Ann Owen, Bronwen Rees Hughes ac Anwen Jones. Y Parch. George Brewer oedd yn cyflwyno'r Testamentau.

**PARTI JIWBILI** – Cynhaliwyd parti Jiwbili y Waun a Bryn Eglwys yn Festri Capel Glasgoed. Cyflwynodd Miss Thomas, Craig y Ddinas, yr aelod hynaf yn y parti, goron bob un i'r plant. Ar ran y plant a phawb oedd yn bresennol cyflwynwyd torch o flodau i Miss Thomas.

**LLWYDDIANT** – Llongyfarchiadau i Trystan Larsen am iddo lwyddo mewn arholiad canu'r piano (Gradd 4). Mrs. Lowri P. Williams, Brynrefail yw ei athrawes.

**MRS. MARY WILLIAMS' Ty'n Waun** – Wedi cystudd hir bu farw Mrs. Mary Williams yn 84 oed yng nghartref ei merch. Mrs. Eiriona Williams, Glyn Euron. Cyn hyn bu mewn ysbyty ym Mangor am 5 mis Dymuna Eiriona ac Ieuan Williams ddiolch i bawb a fu o gymorth iddynt ac a gydymdeimlodd â hwynt yn eu profedigaeth.

**GWAELEDD** – Mae amryw o drigolion y pentref yn cwyno; yn eu plith mae: Mr. P.D. Williams Bryntirion. Da yw deall bod Mr. Williams yn gwella 'rwan ar ôl bod yn sâl ers Mai 5ed.
Nathan Jones – Balch oeddem o glywed bod Nathan yn gwella wedi ail ysbaid yn yr ysbyty.

**JIWBILI** – Cynhaliwyd parti Jiwbili yn Neuadd Eglwys St. Helen ddydd Mawrth, Mehefin 7ed. Bu pobl a phlant Bryntirion a Llys y Gwynt yn mwynhau eu hunain yno. Cafwyd te ardderchog wedi ei baratoi gan y gwragedd. Gan na ddaeth coronau arian i law drwy'r Banc fe ddosberthir y rhain i'r plant eto.

**JIWBILI** – Ymgasglodd cant a deg o gymdogion ynghyd i barti yng Nghapel Bozrah ddydd Mawrth Mehefin 7ed.

Ymhlith y danteithion 'roedd teisen Jubilee wedi ei gwneud gan Bronwen Rees Hughes. Cyflwynwyd mygiau i'r plant gan Mrs. Maggie Thomas a choron Jiwbili i'r pensiynwyr gan Mrs. Betty Eiddwen Hughes. Carem ddiolch i swyddogion Bozrah am fenthyg yr adeilad ac i bawb am eu rhoddion hael a'u cynorthwy. Bwriedir anfon gweddill o'r arian i gronfa John Ellis Pritchard, Caeathro.

**JIWBILI RACCA** – Daeth dros hanner cant o bensiynwyr a phlant i Festri



Ysgoldy ar ddydd Mawrth, 7ed Mehefin i fwynhau gwledd arbennig a ddarparwyd i ddathlu Jiwbili y Frenhines.

Darparwyd teisen hardd, siâp coron, gan Mrs. Walles, Dolwyddelan. Cyflwynwyd y mygiau Jiwbili i'r plant gan Mrs. Ellis, Weirglodd Goch. Treuliwyd prynhawn difyr a chofiadwy dros ben, gyda Reg Edwards, Emyr ac Elwyn yn diddori.

Dymuna Eleanor, Jeanette, Beti, Caroline, Gwen a Delyth ddiolch i bawb am bob cyfraniad a chymorth a dderbyniwyd. Diolch hefyd i Reg am ddod i Weirglodd Goch i ganu teyrnged i'r genod a fu'n gweithio at y Jiwbili.

**CYDYMDEIMLAD** – Wedi salwch hir bu farw Mr. Hughie Davies, Llys Gwynt. Ein cydymdeimlad llwyraf â'r teulu yn eu profedigaeth.

# Maes y Merched

## PRYNU BWYD MEWN SWMP

**Mae'r rhan fwyaf ohonom yn hoff o arbed amser, arian ac egni a dyma ffordd o arbed y tri. Mae'n ffordd ardderchog o gyflenwi stoc o fwydydd sydd heb fod yn ddarbodus, neu fwydydd rhewedig, ac o storio ffrwythau a llysiau yn eu tymor.**

Cyn gweithio allan lle i brynu a chymharu prisiau byddwch yn siwr fod gennych le i gadw'r nwyddau. Dylai'r storfa fod yn sych, o dymheredd cyson – mae seler neu sied sych yn addas. Rhaid cofio y byddwch angen defnyddio'r nwyddau'n gyson felly fyddwch chi ddim elwach o orfod cropian hyd yr atig i nôl bob tun *baked beans!*

Wedyn rhaid penderfynu lle i brynu. Po fwyaf a brynir ar y tro. mwyaf o le sydd angen arnoch yn y car. Os oes rhaid defnyddio llawer mwy o betrol i gasglu'r nwyddau ystyriwch rannu car â chymydog. Er fod llawer o storfeydd *'cash and carry'* yn cynnig disgownt efallai fod y prisiau yn yr uwchfarchnad yn y Stryd Fawr llawn mor rhad ond eich bod heb gysidro prynu yno. Rhaid cael cerdyn arbennig i brynu mewn rhai storfeydd ac mae'n werth trafod prisiau â chymdogion i ddod o hyd i'r lle rhataf.

Rhaid gwario dipyn o arian ar y tro wrth brynu fel hyn. Gall fod yn anfantais ond gellir dod dros hyn wrth gynilo'n gyson rhwng ymweliadau â'r storfa. I dorri i lawr ar y gost mae'n werth rhannu stoc gyda chymdogion, ac efallai dynnu pensiynwyr i mewn i'r grŵp fel y gallent hwythau elwa ar brisiau isel heb orfod gwario swm anferth ar y tro.

### BETH I'W BRYNU

Rhaid gochel rhag prynu bwyd dieithr neu newydd i'r teulu – gall fod yn gamgymeriad drud iawn! Gwell trio ychydig ohono a mynd yn ôl i brynu'r swmp os mynnwch. Os yn siopa ar droed gadewch bethau trymion fel siwgr, bwyd ci a phowdr golchi nes bydd y car ganddoch.

Mae'n hawdd hefyd, wrth brynu mewn swmp, i fynd i ddefnyddio gormod , neu i fwyta mwy, gan fod pawb yn gwybod fod ganddoch fwy wrth gefn.

Dylai'r drefn o wasgu'r mymryn olaf o'r past dannedd gario ymlaen, os am gwtogi go iawn.

### CADW STOC

Mae'n werth cadw cyfrif gofalus o'r stoc a phrynu yn ôl y defnydd e.e. fe aiff 12 kilo o siwgr yn gynt o lawer na 12 tun o lanedydd dodrefn. Ac os ydych yn storio cant o fylbiau golau fyddai ddim yn ddoethach cadw galwyn o oel coginio, fel bydd lle i gadw rhywbeth arall heb aros blynyddoedd?

Mae'n ffordd ardderchog o brynu os ydych yn gweithio neu heb lawer o ddiddordeb mewn siopa dyddiol. Ond gofalwch eich bod yn cael un ai prisiau isel neu arbed amser ac egni. Gorau fyth os gallwch gael y ddau!

**Y Bwydydd gorau i'w prynu'n sympiau:**
**Anghenion Sylfaenol**: Glanedydd llestri; glanedydd bath; glanedydd gwallt; past dannedd; cannydd; foil aliwminiwm; finegr; oel coginio; mêl; saws a phiclau; bylbiau golau; papur cegin a thoiled; grawnfwyd; ffrwythau sych.
**Tuniau**:
**(sylwer ar y stampiau dyddiad)**: ffrwythau; llysiau; spageti a 'baked bean'; bwyd anifail
**Bwyd wedi ei rewi (wrth brynu paciau mawr ystyriwch yr ansawdd yn ofalus)**: llysiau; ffrwythau; cig a sosej; pysgod.

# Llanberis

**WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL** – Cafwyd llwyddiant arbennig eleni ar y casgliadau yn Llanberis a Nant Peris. Dyma'r rhai fu'n casglu o dŷ i dŷ:
**Capel Jeriwsalem** – Mrs. J.R. Ellis; Mrs R. Davies a Mrs. J. Jones: £7.77. **Eglwys St Padarn: Mrs. R.E. Williams:** £2.95; Mrs. Eattie Hughes: £4.37; Misses Menai ac Einir Davies: £2.90; Miss C. Gillespie: £19. **Nant Padarn:** Miss D. Ward a Miss Ann Evans: £15.21 (cynnwys **Plas Pen Gwaith:** £5.25); Mrs. Enid Jones a Mrs Dorothy Williams: £7.04. **Capel Bethel** Mrs. Jane Williams: £5.78. **Capel Gorffwysfa:** Mrs. Owen Jones a Mrs. R. Lloyd-Roberts: £9.90. **Yr Eglwys Babyddol:** Mrs. Clarke: £4.19. **Capel Coch:** Mrs. Catherine Lloyd Williams a Mrs. Margaret Jones: £13.44; Mrs. D. Prydderch a Mrs. Rita Lloyd-Jones: £5.33. **Capel Preswylfa:** Mrs. I. Sellars a Mrs. Selwyn Pritchard: £10.04. Mr. Cledwyn Parry: £3.16. Mrs. J.S. Thomas: £3.96. **Rhodd (Di-enw)**: £40. **Nant Peris: Rehoborth**: Mr. Alwyn S. ac Elwyn S. Jones: £13.92. **Eglwys St Peris:** Miss Hilda Jones, Miss Rita Jones a Miss Jennifer Ellis: £5.28. **Cyfanswm** –
– £174.24. **Casgliadau'r Flwyddyn (Gwasanaethau): £14.46. Llogau r Banc: £131. Sul Ewyllys Da yr Urdd: £16.62. Rhodd Clwb y Mamau Llanberis' £2. Rhodd Adran Llanberis o'r Frigad Ambiwlans St. Ioan: £12. Casgliadau Gwestai Lleol: £9 35 Bwdd Trydan Canolog (trwy garedigrwydd Mr. T.W. Williams) : £9. Cafwyd Cyfanswm o £228.98 a dymuna'r trefnydd lleol ddiolch i'r cyhoedd am eu haelioni i'r casglyddion am eu llafur ac am gydweithrediad y Parch John Owen (Cadeirydd), Mr. Elwyn Jones (Trysorydd) a Mr. R.R. Parry (Archwiliwr).**

**CYNGERDD DYDD MAWRTH GAN BLANT YSGOL PENDALAR CAERNARFON** - Cafodd E.O. Thomas, 15 Tŷ Du Road, wahoddiad gan Mrs. Catherine Jones, Prifathrawes yr ysgol uchod i'r cyngerdd.

Yr oedd yn gyngerdd o safon uchel iawn a'r neuadd yn orlawn. Y Prifathrawes oedd yr arweinydd a mawr yw'r clod iddi hi, a'r holl athrawon sydd ar staff Ysgol Pendalar.

Hefyd teimlai Mr. Thomas rhyw agosatrwydd a thynerwch mawr yma rhwng yr athrawon a'r plant.

**DISCO** – Nos Fawrth y Jiwbili cynhaliwyd disco yn y Ganolfan. Plant y pentref wedi trefnu'r cyfan – allan o'r elw prynwyd anrheg i Gwyneth Williams, Swyddfa'r Post.


**Am waith adeiladu RHAGOROL am bris RHESYMOL cysylltwch â**

**B. Kavanagh**

**CONTRACTWYR ADEILADU**

**7 MILLS ROW**
**BLAENAU FFESTINIOG**
*Ffôn : 268*

# LLANBERIS



**CLWB METHEDIG ERYRI** – Cynhaliwyd noson goffi lwyddiannus iawn yn ystod y mis, a gwnaethpwyd elw o £185. Dymuna'r aelodau ddiolch i'w cefnogwyr oll am gyfrannu at y noson ardderchog hon.

Ardderchog wir oedd deall fod Mr. Geoff Purott, 10 Bryn Eglwys, Penisarwaun wedi meistroli'r grefft o ddefnyddio camera Braille. Gweler uchod un o'r lluniau rheini.

**LLONGYFARCHION** – i Mr. Alan Roberts, Stryd Newton ar gael ei apwyntio yn bennaeth adran hanes Ysgol Eifionydd, Porthmadog. Mae Alan ers rhai blynyddoedd bellach yn athro hanes yn Ysgol Rhydfelen, Sir Forgannwg.

**DIOLCH**– Dymuna Mrs. Katie Roberts 9 Stryd Turner ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu a'i chyfeillion oll am y llu o gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 80 oed.

**DIOLCH** – Dymuna hen chwarelwyr a phentrefwyr Llanberis ddiolch i benaethiaid y CEGB am y siawns o fynd o amgylch y chwarel yn ystod y diwrnod agored.

**YMDDEOL** – Ar ôl wyth mlynedd yn gwerthu nwyddau i drigolion Plas Pengwaith daeth tymor Mrs. Davies, Modurdy'r Wyddfa, Mrs. Butlen, Tŷ Cynon, Llanberis, Mrs. J.M. Jones, 81 Maes Padarn a Mrs. Nancy Jones, 32 Maes Padarn i ben.

Gyda'r ychydig arian a oedd yn weddill fe brynwyd shafiwr trydan, plât arian a chloc at wasanaeth y Plas.

Dymuna'r staff a'r trigolion ddiolch iddynt am eu gwaith gydol yr amser.

**LLONGYFARCHION** – i Mr. a Mrs. Oxley, 6 Stryd yr Wyddfa ar ddathlu eu 59 mlynedd o fywyd priodasol. Bu Mr. a Mrs. Oxley, a'r teulu yn ciniawa yng Ngwesty'r Gwynedd y diwrnod hwnnw.

**GWEITHIWR CYMDEITHASOL** – Mae gweithiwr cymdeithasol yn ymweld â'r Ganolfan Iechyd bob dydd Mercher rhwng 9.30 a 12.30. Croeso cynnes i bawb.

**TRÊN I BEN YR WYDDFA** – "Petai'n bwrw glaw neu eira – mi 'rydwi'n benderfynol o fynd i ben yr Wyddfa", meddai un o'r cant a hanner o bensiynwyr a wahoddwyd gan Gwmni Rheilffordd yr Wyddfa i fynd ar y trên i'r copa. Dim rhyfedd yn y byd am yr ymateb i'r gwahoddiad oherwydd dyma'r tro cyntaf erioed i amryw o'r pensiynwyr fod ar yr Wyddfa, ac yn sicr ddigon ni fu tri chwarter ohonynt yn y trên fel 'byddigions'. Pa ots am y niwl a'r glaw, cael mynd yn y trên oedd yn bwysig, a diwrnod i'w gofio oedd hefyd.

Diolch calon i'r Cwmni am eu caredigrwydd i'r pensiynwyr.

**TRIP YR HENOED** – Dydd Sadwrn 25 o'r mis hwn aeth aelodau Clwb yr Henoed ar y trip blynyddol i Fae Colwyn, ac yna i Barc Eirias lle 'roedd pryd blasus wedi ei ddarparu iddynt.

**GWAELEDD** – Da gennym ddeall fod Mrs. Beti Graham, Dôl Elidir yn gwella ar ôl triniaeth yn yr ysbyty. Balch ydym hefyd fod Mrs. Mary Thomas, Ffordd Tŷ Du, Mrs. William Jones, Ffordd Padarn a Mr. Llew Batten, Maes Padarn yn gwella.

**MARWOLAETH** – Yn ystod y mis bu farw tri aelod o'r gymdeithas: Mr. Emyr Thomas, 8 Maes Padarn, Mr. John Williams, Bryn Peris a Robert Griffith, Stryd Siarlot. Cydymdeimlir yn fawr gyda'r teuluoedd oll, yn eu profedigaeth.

**CYFARFOD GOLLWNG** – Nos Fawrth, Mehefin 21 cynhaliwyd cyfarfod gollwng y Parch. John Owen yng Nghapel Coch.

Anerchiwyd y cyfarfod gan:
Mri. Gwynfor Williams; Glyn Owen, Pontrhythallt; Parchn; W.O. Roberts; George Brewer; O. Lloyd; S.H. Williams.

Diolchodd y Parch. John Owen i'r oll o'r cyfeillion am eu geiriau caredig.

Arweiniwyd y gwasanaeth dechreuol gan Mr. H.R. Jones a rhoddwyd y fendith gan Mr. Hywel Morris.

**TE PARTI JIWBILI** – Cafwyd parti ardderchog gan blant a phensiynwyr Strydoedd Goodman, Turner a Rallt Goch yn Festri Capel Gorffwysfa. Darparwyd cacen arbennig gan Mrs. Jean Roberts, 13 Stryd Goodman. Anrhegwyd y plant gan Mrs. Dilys Baylis. Diolchwyd i'r merched gan Mr. Thomas Evans ac eiliwyd gan Mrs. M.B. Hughes.

Hoffai'r mamau ddiolch am gefnogaeth pobl y strydoedd.

**JIWBILI** – Ar brynhawn Mawrth y Jiwbili bu plant ac oedolion Styd-y-ffynnon a Stryd-y-dwr yn cael gwledd yn yr awyr agored yn Stryd-y-dwr. Yn ogystal a bwyd bu'r plant yn ffodus iawn gan iddynt dderbyn nifer o anrhegion i goffau yr achlysur – 'mug', 'biro', darn arian, 'pendant' i'r genethod, cyllell boced i'r bechgyn, ac hefyd ffrwythau, melysion, a baner y ddraig goch.

Fe hoffai'r trefnyddion ddatgan eu diolchiadau cynhesaf i bawb yn y ddwy stryd a gyfrannodd i'r parti mewn gwahanol ffyrdd. Cafwyd cymaint o gefnogaeth fel bod arian yn weddill o'r parti a phenderfynwyd rhannu'r arian yma rhwng y plant ar gyfer trip yr Ysgolion Sul.



# Llannerch Y Llenor



gan SELWYN GRIFFITH

**BU'N fis diddorol. Mis o grwydro led-led Cymru i eisteddfota – Llanegryn, Pontrhydfendigaid a phrifwyl yr Urdd yn y Barri.**

Mae'n syndod fel y daw amryw o bobl ataf mewn eisteddfodau i sôn am *Eco'r Wyddfa*. Yn eisteddfod Llanegryn gŵr â'i wreiddiau yn ardal Deiniolen yn cyflwyno'i hun i mi drwy ganmol yr *Eco* a'i gynnwys. "Wil Clwt-y-bont ydw i," medda fo, "ac 'rwy'n cael blas ar yr *Eco* bob mis." Sylwais arno yn ddiweddarach yn morio canu gyda'i gôr a hithau'n dri o'r gloch ar fore Sul. Ia marathon o Steddfod oedd Steddfod Llanegryn. Dyma'r tro cynta 'rioed i mi wneud y camgymeriad o dderbyn steddfod ar ddiwrnod y Cup Ffeinal. Ond ta waeth, – gwledd awr a hanner oedd steddfod Wembli. Fe barhaodd Steddfod Llanegryn o hanner dydd y Sadwrn hyd bedwar fore Sul – "dyna chi extra time!"

Y penwythnos dilynol cydletya â'r beirniad canu hynaws o Gaerdydd – Alun Guy, yn Eisteddfod Fawr Pontrhydfendigaid. Alun yn cyfeirio at erthygl ddiddorol ar Ieuan Gwyllt, a ddarllenodd yn yr *Eco*, ac yn holi am darddiad yr enw Capel Coch. Eglurais fod yr Afon Goch yn rhedeg wrth ymyl y capel, ac i hon gael ei bedyddio am fod ei dyfroedd yn goch, pan weithid hen fwynfeydd ar y llethrau uwchben Llanberis. Oeddwn i'n gywir tybed? Oes eglurhad arall gan rywun? Ta waeth cawsom sgwrs ddifyr, a thrafodaeth ddiddorol ar yr *Eco*, Capel Coch a Ieuan Gwyllt.

Yna, pinacl y saffari eisteddfodol – sef Prifwyl yr Urdd yn y Barri, a buddugoliaeth fawr plant Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen. Rhagorol blant, – daliwch ati, yn gorau a phartion, ac unigolion. Byddaf yn gweld plant o Ddeiniolen yn aml mewn eisteddfodau led-led y Gogledd 'ma. Maent yn ennill profiad ymhob eisteddfod. Nid drwy gystadlu unwaith mewn blwyddyn mae cyrraedd llwyfan y Genedlaethol. Llongyfarchion cynnes iawn unwaith eto blant – a daliwch ati.

Clodforais gampau merched ein llên yn y rhifyn diwethaf, ac fel y bu i ferch ennill y goron am y tro cynta 'rioed ym mlwyddyn coroni'r frenhines. Eleni ym mlwyddyn y Jiwbili, am y tro cynta erioed, dyma ferch (un ar bymtheg oed) yn cipio cadair prifwyl yr Urdd. Merch hefyd a eisteddodd o dan y goron ac, a wisgodd fedal y Barri. Rhagorol ferched!

I ddathlu buddugoliaeth y merched, fe gaiff ein merched ninnau y gair ola am y mis hwn. Dwy gerdd, a'r ddwy gan ferched o Lanberis.

Vera Rees Hughes yn pryderu am "Amser" a Dilys Baylis yn holi ynglŷn â "Dwylo".

Hwyl fawr a chofiwch anfon gair.

Selwyn


MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI
Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans


**AMSER**

**Cofiwch fod amser yn bwysig i mi**
**Mae cymaint o bethau i wneud yn y tŷ,**
**A finnau yn hoffi cael profi bob dim,**
**Ond amser sy'n grwgnach hynny im.**

**Caf amser i olchi ac amser i llnau**
**Ond amser i ddarllen nid yw yn parhau**
**Mae eisiau gwneud cinio neu drwsio rhyw glwt**
**O rhowch imi amser i 'sgrifennu rhyw bwt.**

**O amser, O amser, fe ei ar dy hynt**
**Mor dawel, di-gyffro, mor gyflym â'r gwynt**
**A minnau yn dysgu fwy-fwy o hyd**
**Am ogoniant yr harddwch a geir yn y byd.**

*Vera Rees Hughes, Llanberis*

**DWYLAW**

**Llaw pwy oedd honno gerfiodd grud**
**I gynnal Baban iach?**
**Ym Methlehem y preseb gaed**
**Yn barod i'r un bach**

**Llaw pwy oedd honno gerfiodd long**
**I gludo dros y dŵr**
**Y Proffwyd ddysgodd ar ei bwrdd**
**Y ffordd i drechu stŵr**

**Llaw pwy oedd honno ddarniodd goed**
**Y palmwydd teg y dydd**
**Pan ar ei asyn marchog wnaeth**
**Yn Frenin hawddgar, rhydd.**

**Llaw pwy oedd honno gerfiodd fwrdd**
**Y Swper Olaf un,**
**Y bwrdd lle'r eistedd Prynwr byd**
**Yn rhannu'r bara a'r gwin.**

**Llaw pwy oedd honno gerfiodd groes**
**I hoelio'r Addfwyn Oen?**
**Llaw pwy a gerfiodd bicell fain**
**I'w wanu yn ei boen?**

**Llaw lân a roddodd Dduw i mi**
**I wneuthur da'n y byd,**
**Ac adlewyrchu trwy fy ngwaith**
**Weithredoedd glân o hyd.**

*Dilys Baylis*
*Llanberis*

# SIBRYDION o'r YSGOLION



*Ysgol Dolbadarn — Enillwyr Mabolgampau'r Urdd*

**CYNHALIWYD Mabolgampau'r Urdd ar gaeau Ysgol Brynrefail ddydd Llun, Mehefin 20fed. Dyma'r marciau terfynol:**
**1af: Dolbadarn — 55½; 2ail: Llanrug — 26½; 3ydd: Bontnewydd — 24; 4ydd: Gwaun Gynfi — 22; 5ed: Yr Hendre — 9; 6ed: Penisarwaun: 7.**


**Rhedeg: Merched dan 9:** 1. Iorwen Jones D; 2: Delyth Williams GG; 3: Glenda Roberts D
**Rhedeg: Bechgyn dan 9:** 1: Nigel Griffiths LL; 2: Kevin Jones GG; 3: Derfel Wyn Hughes B
**Rhedeg: Merched dan 11:** 1: Melanie Sellars D; 2: Ann West LL; 3: Susan Airdow B
**Rhedeg: Bechgyn dan 11:** 1: Paul Thomas D; 2: Dilwyn J. Williams P; 3: Dylan Lewis B.

**Rasys Cyfnewid:**
**Merched dan 9:** 1: Gwaun Gynfi; 2: Dolbadarn: 3: Llanrug
**Bechgyn dan 9:** 1: Gaun Gynfi; 2: Bontnewydd; 3: Dolbadarn
**Merched dan 11:** 1: Llanrug; 2: Bontnewydd; 3: Dolbadarn
**Bechgyn dan 11:** 1: Bontnewydd; 2: Dolbadarn; 3: Llanrug

**Naid Uchel:**
**Merched dan 9:** 1. Glenda Roberts D; 2. Cheryl Parry; 3. Iorwen Jones D
**Bechgyn dan 9:** 1. Michael Coombs P; 2. Nigel Griffiths ac Iwan Williams Ll
**Merched dan 11:** 1. Shelley Williams Ll; 2. Sharon Jones H; 3. Jacqueline Hughes B
**Bechgyn dan 11:** 1. David Arfon Hughes D; 2. Dylan Parry D

**Naid hir:**
**Merched dan 9:** 1. Delyth Williams GG; 2. Iorwen Jones D; 3. Marie Cropper Ll
**Bechgyn dan 9:** 1. Ian Thomas H; 2. Gwyn Arfon Roberts B a Nigel Griffiths Ll
**Merched dan 11:** 1. Bethan Lewis B; 2. Melanie Sellars D; 3. Sandra Cyster GG
**Bechgyn dan 11:** 1. David Arfon Hughes D; 2. Steven Owen Ll a Dilwyn Williams P

**Taflu Pêl:**
**Merched dan 9:** 1. Iona Roberts D; 2. Iorwen Jones D; 3. Mairwen Williams P a Lynn Williams H
**Bechgyn dan 9:** 1. Colin Saynor D; 2. David Owen D; 3. Nigel Griffiths Ll
**Merched dan 11:** 1. Nia Jones D; 2. Linda Owen D; 3. Susan Clarke H
**Bechgyn dan 11:** 1. David Arfon Hughes D ac Ian Owen H; 2. Stephen Anthony Williams B; 3. Matthew Anthoine D



*Tîm Ymarfer Corff Ysgol Llanrug a enillodd farciau uchel yn Eisteddfod Genedlaethol Y Barri.*

## YSGOL GYNRADD PENISARWAUN

Bu pump o'r bechgyn hynaf, sef Dylan Green, Dilwyn Green, Arfon Jones, Timothy Jones a Gareth Pleming yn llwyddiannus yn eu hymddangosiad ar y rhaglen deledu 'Taro 'Mlaen' yn ddiweddar. Trechwyd Ysgol Pontrhydyfen o 98 pwynt i 75.

Pnawn dydd Llun, Mehefin 20 bu tîm o athletwyr yr ysgoi yn cystadlu ym Mabolgampau Cylch yr Urdd ar gae Ysgol Brynrefail. Llongyfarchiadau arbennig i Michael Coombs (1af naid uchel dan 9 oed) a Dilwyn John Williams (2ail ras 80m dan 11 oed)

Pnawn dydd Iau diwethaf Mehefin 23 mwynhaodd y plant Dosbarth y Babanod drip i Lanberis, lle buont yn teithio ar Rheilffordd Llyn Padarn.

Ac erbyn ymddangosiad yr Eco bydd plant yr Adran Iau wedi treulio diwrnod yn ardal Ardudwy, lle gobeithir ymweld a Chwarel Llanfair, Capel Salem a thref y Bermo.

## YSGOL BRYNREFAIL

**Cynhaliwyd mabolgampau Gwynedd yng Nghergybi ar y 18ed o Mehefin a bu'r ysgol yn llwyddiannus yn y cystadleuthau canlynol. Daeth Robin Williams, Llanrug, sydd yn y 3ydd dosbarth yn gyntaf am daflu'r ddisgen. Daeth Wyn Evans, Seion, sydd yn y 4ydd dosbarth yn gyntaf yn y ras 3 mil medr. Bydd y ddau fachgen yma yn cynrychioli Gwynedd yn y Mabolgampau Cenedlaethol yng Nghwmbran ar yr 2ail o Orffennaf. Torrodd Robin y record yn y gystadleuaeth ddisgen a gobeithir y gwnaiff yr un peth yng Nghwmbran. Daeth Gareth Williams, 6ed dosbarth yn ail yn y ras 400 medr, Iorwen Parry, 6ed dosbarth yn ail yn y ras 400 medr Carys Wyn Williams, dosbarth 1af yn ail yn y ras 200 medr a Geurwen Griffith, dosbarth 3ydd, yn ail am daflu'r pwysau. Enillodd Cheryl Edwards, dosbarth 1af, y gystadleuaeth taflu pwysau i'r genethod ieuaf gan dorri'r record, ond yn anffodus nid yw'n mynd i Gwmbrân gan nad oes cystadleuaeth i'r plant ieuaf yn y Mabolgampau Cenedlaethol.**

### CALIFORNIA 77

Mewn cystadleuaeth o'r enw California 77, a drefnwyd gan "Fanc Lloyds", daeth pump aelod o'r chweched dosbarth yn drydydd trwy Brydain Fawr. Y wobr gyntaf oedd gwyliau yng Nghalifornia, ond yr oedd Ernest Graham, Llanberis, Dilys Jones, Brynrefail, Nest Jones, Bethel, Ann Thomas, Llanrug a Michael Williams, Deiniolen yn falch iawn o dderbyn arian gan y Banc fel eu gwobr am ddod yn 3ydd yn y gystadleuaeth.

### COLLI GWALLT

Yr wythnos ddiwethaf daeth Mr. Peter Thomas, o "Hair piece", Bangor i'r ysgol i siarad am grefftwaith gwallt. Cafodd genethod yr ysgol i gyd brynhawn difyr yn gwrando arno, ac aeth nifer ohonynt adref gyda llai o wallt ar ôl iddo arddangos ei grefft arnynt

### TRIPIAU

Yr wythnos ddiwethaf aeth disgyblion 4B a 4C i Waith Briciau, Caernarfon. Cafwyd prynhawn difyr yn cerdded o amgylch y gwaith.

Y mae disgyblion yr ysgol sydd yn cymryd Hanes fel pwnc wedi bod ar nifer o dripiau diddorol yn ystod y mis diwethaf. Aeth 2A a 2B i weld Castell Gwydir, a Phlas Mawr, Conwy fel rhan o'u cwrs o astudio Cartrefi Banedd Tuduraidd. Aeth 3B, 4A a'r 6ed dosbarth i weld Castell Penrhyn i astudio pensarniaeth a hanes y castell ac aeth 3B a 4A i ymweld â charchar Biwmares.


Wavell Roberts
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI!

E& E.M.GREEN
SIOP GRON
PENISARWAUN
*
Nwyddau Groser
Ffrwythau a Llysiau Ffres
*
*Dewis rhagorol*
*Croeso cartrefol*

AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO ...............
Eric Morris

Bwsiau Arfon
LLANRUG
FFÔN WAUNFAWR 254


# BETWS GARMON

**O'R YSBYTAI** – Dymunir llwyr wellhad i Mr. W. Griffith, Caeau Gwynion a Mrs. M. Jones, Tŷ Coch, ar ôl eu triniaeth lawfeddygol ym Mangor.

**DIOLCH** – i Mr. a Mrs. David Edwards Y Wern, Bangor am ganiatau i gael cynnal Parti Jiwbili ar Ynys Hafodty. Cafwyd amser da a digon o fwyd – diolch i bawb a fu mor haelionus ac am bob cymorth a gafwyd at wneud y noson mor llwyddiannus – yn enwedig i Mrs. Glenys Williams, Ty'n Weirglodd am drefnu'r cwbl.

**CROESO ADREF** – i Mrs. C. Pritchard Bryn Derwen ar ôl ei hymweliad am chwe wythnos â'i merch yn Canada.

## YMRYSON CŴN DEFAID BETWS GARMON


VALE OF
BETTWS GARMON
Sheep Dog Trials
TO BE HELD AT
YSTRAD FARM,
ON SATURDAY SEPTEMBER 13th, 1919.
PRESIDENT:
SIR T. EDWARDS ROBERTS, D.L., J.P., Plas y Bryn.
VICE-PRESIDENT:
J. TREVOR DAVIES, ESQ., Bettws Garmon.
Patrons:—

**DYMA dymor y Rasus Cŵn Defaid efo ni eto, ac os bydd yn haf braf heulog a chynnes gellir eistedd allan i fwynhau gweld y cŵn wrth eu gwaith.**

Hwyrach na ŵyr fawr ohonoch sut y cychwynnodd hen ras Betws Garmon, sydd yn un o'r rhai hynaf yn y Gogledd.

Tafarnwr o'r enw Mr. Storrer, a gadwai westy y 'Snowdon Ranger' a'i rhoddodd ar y gweill i ddechrau. Byddai hogia a bugeiliaid y cylch yn cyfarfod yno i dorri syched a chanmol eu cŵn. Penderfynwyd mai peth da fyddai cael prawf ar y cŵn i weld pa un oedd y gorau.

Trefnodd Mr, Storrer ras yn Fron Isa, Bronfedw Isa. Mae yno ddwy ffridd – Fron Isa a'r Ucha.

Y gwaith a ofynnid i'r ci ei wneud oedd dod â'r defaid o'r Fron Ucha i'r Fron Isa. Nid oedd pwyntiau'r pryd hynny fel sydd yn awr – dim ond nôl y defaid i lawr a'u corlannu, a'r amser i'w gymryd i ystyriaeth. Pryd hynny caniateid i'r bugail luchio ambell garreg i symud hen ddafad bengaled. 'Roedd ci glas Cymreig yn boblogaidd y pryd hynny – ond pa wahaniaeth os yr âi ar ôl y defaid.

Buan iawn y tyfodd y ras o fod yn beth i'r cylch, a dod yn bur enwog. Yn nechrau'r ganrif ceir enwau rhai o Swydd Efrog a chanolbarth Lloegr wedi ennill Cwpan Assheton Smith yn y dosbarth agored i'r byd.

Cymerai'r 'Byddigions' ddiddordeb mawr yn y cŵn a cheid gwobrau a thystysgrifau helaeth gan rai fel Vaynol; Penrhyn; Glynllifon; Plas Nant; Wern Port ac hefyd Charles Wawn, y peiriannydd a gododd yr hen bont oedd dros yr Aber, Caernarfon (ac a drigai ym Mhlas Nant am gyfnod).

'Roedd Cwpannau a gwobrau hael fel, deg gini, saith a chweugain neu £5 yn werth eu cael y pryd hynny – cyn bod sôn am chwyddiant.

Gellid gweld pob un a ddaliai swydd ar y cae yn gwisgo bathodyn – pob un gyda'i liw priodol – cai dau o'r rhain y gwaith o wastrodaethy plant. Wel, mae llawer o'r plant hynny erbyn hyn yn hen aelodau o'r pwyllgor.

Aeth yr hen ras yn fethdalwr yn y dauddegau (pan oedd yr arian yn brin).

Yn 1934 fe'i hail-godwyd ar ei thraed, ac mae wedi dal i fynd er hynny.

Mae croeso cynnes i bawb ddod yno i'w chefnogi – ac os bydd y tywydd yn braf, hei lwc i'r hen ras – a gynhelir eleni ar ddydd Gwener a'r Sadwrn, Awst 12eg a 13eg.

*R.O. Pritchard*
*Plas Isa gynt*


STORFA
Mace
S.&E. Jones
Llanrug
FFÔN: Caernarfon 2790
BLODAU A FFRWYTHAU YW EIN HARBENIGRWYDD

S. JONES
CYFANWERTHWR FFRWYTHAU
*(WHOLESALE FRUITERER)*
Y STORFA
LLANRUG
FFÔN
CAERNARFON 2790


# Agor Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams



## Y Tair M

**AR Y chwith Megan Mair Jones Tyddyn Rhyddallt (Mrs Owen, Southport yn awr): Yn y canol: Mary Lloyd, Llys Awen (Mrs. Mary Lloyd Williams): Ar y dde: Maggie Lizzie Roberts Llys Meirion (Mrs Vaughan Jones Graigwen):**

Cynhaliwyd Cyngerdd Prawf (Test Concert) ym Mhafiliwn Caernarfon Llun y Banc Awst 2, 1920. Enillodd Parti y 'Tair M' y wobr gyntaf am gyd-adrodd Pennod 1, Corinthiaid 13. Tri gini oedd y wobr. Yr oedd llawer iawn o bartïon yn cystadlu. Mr. R. Môn Williams, Caergybi oedd un o'r ddau feirniaid. Fel hyn y canodd fy nhad i'r amgylchiad:

**Y tair geneth a'r tri gini, –**
**Tair orau'n Eryri:**
**Tair 'M' o chwaeth aeth â hi,**
**A'u hadrodd yn wrhydri.**

**Glan Rhyddallt**

Dysgwyd y parti gan bencampwr ym myd adrodd sef y diweddar Mr. Owen Thomas, Rhianfa. Daeth Owen Thomas i stesion Pontrhythallt yn borter o Frynsiencyn. Ymhen peth amser cafodd le fel yr hyn a alwem ni yn 'blismon plant'. Hel plant i'r ysgol oedd y swydd mewn gwirionedd, "Attendance Officer". Gwnaeth Owen Thomas waith ardderchog gyda phlant mewn aml gyfeiriad heblaw eu dysgu i adrodd a'u hanfon i'r ysgol. Gallai ddisgyblu gyda medr eithriadol. Y mae olion o'i wasanaeth gwerthfawr yn yr ardal o hyd.

Clywais iddo fynd i gystadlu i sir Fôn un tro. Croesai gyda chwch o'r Felinheli ar draws y Fenai. Yr oedd Owen Thomas ar y llwyfan adrodd a'r cloc yn dangos hanner nos. Enillodd Fedal sef y wobr gyntaf. Yr oedd arno eisiau cerdded wedyn i lawr at y cwch i Frynsiencyn, croesi drosodd a cherdded adref i Lanrug o'r Felinheli. Fore drannoeth wrth ei waith fel arfer. Mewn gwirionedd dyna wrhydri!

Bu partïon adrodd llwyddiannus eraill yn yr ardaloedd. Pwy sy'n barod i anfon yr hanesion?

Yn y Cyngerdd Prawf a nodais uchod enillodd Mr. R.O. Thomas Dinorwig y wobr gyntaf ar y 'Challenge Solo, O Land Enchanting".

Enillodd Bandiau Pres Llanrug yr ail wobr am chwarae "Colonel's Parade". Hefyd daeth Llanrug yn ail yn y "Test Piece" i Fandiau Pres, y darn prawf oedd "Gems of Wagner".

Yr Athro D.J. Lloyd, Mus.Doc., Aberystwyth, oedd beirniad y canu a Mr. James Briar, Bournville yn beirniadu offerynnau.

**O.N. Sylwais fod enw'r Crydd Bach y mis diwethaf wedi ei gambrintio – Rolant Roberts oedd ei enw. Mae'r** ***Eco*** **yn ymddiheuro am hyn. Gol.**

**Llongyfarchion i Arwel Jones Golygydd yr Eco ar ei benodi yn Bennaeth Ysgol Gynradd Gaerwen, Môn. Bydd Arwel, sydd ar hyn o bryd yn ddirprwy bennaeth Ysgol Penybryn, Bethesda, yn dechrau yn y Gaerwen ym Medi Pob llwyddiant iddo.**


GWILYM JONES
Monumental Works
LLANRUG
Gwaith Coffaol o bob math mewn llechi a gwenithfaen gan grefftwyr lleol

FFÔN
CAERNARFON 2898

# CARNIFAL LLANRUG A PHENISARWAUN



Dawnswyr Morris bach Ysgol Gynradd Llanrug yng Ngharnifal Llanrug



Carnifal Penisarwaun – Ian 'Dandŵr' Roberts – cyntaf yn y gystadleuaeth byd teledu.



Carnifal Llanrug.
Miss Gwenan Parry, Glanffynnon yn ei choets addurniadol



Genod drwg St. Trinian's, Penisarwaun – enillwyr y gystadleuaeth agored



Carnifal Penisarwaun – Charles, sef Dylan Williams yn cyflwyno Susan Pierce fel ei wraig.



Rhai o gystadleuwyr ieuanc Carnifal Llanrug.



Carnifal Penisarwaun – Barry Jones fel cymeriad hanesyddol.




Plant Llanrug yn hysbysebu


GORS BACH PANEL BEATING SERVICE

Cwm-y-glo

*

Ffôn : LLANBERIS 814


*

GWASANAETH TORRI-LAWR 24 AWR




# LLAN
# 19
## Y Carni

Dyma ddywed Miss Mat Pritc
Medi 1928: "Carnifal i wneud
rhyfeddod ddiarth i ni'r brodor
bob dim! Cofio rhythu'n freu
ffenast Gruffydd Jôs, Teiliw
gyfamserol, yng nghanol y wefr
llun o'r dyddiau pell, a hiraeth e



Y BRIODAS

Yn y darlun o'r chwith i'r dde;
Mrs. Davies Haulfryn; Mrs. B
Derlwyn; Mr Gwilym Evans,
Derlwyn; Mr Griffith Morris, Y B



TE PARTI TŶ DU

O'r chwith: Enid M. Thomas; Liby Huws; Lena Woodleigh; Mat Pritchard; Mena Stesion; y ddiweddar Mem Parry.



Bessie, Luned Mai Jones (G
Alice Lloyd oedd y llall. Y dd
longwr) a Jac Idan House ar y
llun?

# BERIS
# 28
# al Cyntaf

l am y Carnifal Cyntaf yn Llanberis: w i'r Band oedd hwn. 'Roedd yn 'Roedd blas newydd sbon danlli ar ydiol ar lwyth y presanta'n codi yn Bessie hoffus, a fu farw mor d – "Bessie Snodn Gwin". Dyma 3 nd i ni'r hen bobol!"



*s, Mafeking; Mr. Thomas Evans, lwyn; Mr. Tommy Lloyd Evans, yn – **enillwyr y wobr gyntaf.***





*"FFANSI DRES"*

*O'r chwith: Catherine Gillespie; Katie, Ty Capel; Julia, Pant Du.*



*yn gynt, un o'i dwy brif forwyn), ldar Miss Rhiwen Jones (mewn siwt n. Oes rhywun a edwyn rhagor yn y*

# TLWS ECO'R WYDDFA

YR ENILLWYR

## LLANRUG




*Dafydd Evans, Golygydd Chwaraeon Eco'r Wyddfa yn ei elfen yn cyflwyno'r tlws i aelodau Tîm Buddugol y gystadleuaeth.*

### Y TIMAU YN Y ROWND GYN-DERFYNOL



*Penisarwaun*



*Cwm-y-glo a Waunfawr*


DEWCH I

**SIOP THOMAS PRITCHARD**

***IRONMONGER***

BIRMINGHAM HOUSE LLANBERIS

Ffôn: 206

AM NWYDDAU A CHELFI O BOB MATH I'R CARTREF

OLL AM BRISIAU RHAD!

BARGEINION TOPDEC bob mis


## TIM IAU LLANRUG



*Mr. Gwilym Lloyd gyda'i dîm iau – enillwyr y gystadleuaeth arbennig rhyngddyn a thîm ieuenctid y pentref.*

GOBEITHIWN DDANGOS MWY O LUNIAU Y CARNIFALAU ERAILL YN EIN RHIFYN NESAF YN NIWEDD AWST.

# LLANRUG

**DIOLCH** — Dymuna Mrs. W.A. Jones, Y Dalar Deg, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd mawr tra'r oedd yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU, CAERNARFON A'R CYLCH 1979** — Mae Pwyllgor Apêl Lleol wedi ei sefydlu, ac eisoes wedi cyfarfod yn Festri Capel Mawr. Etholwyd y swyddogion canlynol: **Cadeirydd:** Dr. Eurwyn Ll. Evans, Carwyn; **Trysorydd:** Mr. Gareth Roberts, Gregynog; **Ysgrifennydd:** Mr. D. Whiteside Thomas, Bron-y-Nant.

Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb ymuno â'r Pwyllgor Canolog. Mae pob un a fu'n y ddau Gyfarfod Cyhoeddus wedi eu hethol ar y Pwyllgor, ond mae angen llawer mwy o gynrychiolwyr o bob rhan o'r pentref, ac yn enwedig o ardaloedd Tanycoed a'r Ceunant. Os oes unrhyw un yn fodlon ymuno â'r Pwyllgor, yna dowch i gysylltiad ag un o'r swyddogion.

**CLWB BLODAU'R GRUG** — Aeth aelodau Clwb Blodau'r Grug ar wibdaith i dref Wrecsam yn ddiweddar a mwynhaodd pawb ei hun yn fawr iawn. Trwy garedigrwydd Mrs. Jones, pennaeth cegin Ysgol Brynrefail a'i chydweithwyr darparwyd te i ddathlu Jiwbili'r Frenhines i aelodau'r clwb. Fel arfer, cafwyd gwledd ardderchog ac mae ein dyled yn fawr iawn iddynt.

Bu Mr. Burrows ysgrifennydd y Clwb yn yr ysbyty yn ddiweddar a hyderwn y bydd yn cael meddyginiaeth lwyr a buan.

Bydd gwibdaith i Gapel Salem a thrwy Ardudwy ar ddydd Iau, 21ain o Orffennaf a byddwn yn cychwyn am hanner dydd.

**PERSONOL** — Dewiswyd Mr. Geraint Huws-Roberts yn flaenor yn Eglwys MC Y Graig, Penrhosgarnedd, Bangor. Ef yw Prifathro Ysgol y Faenol, Penrhosgarnedd. Y mae yn un o blant Llanrug, yn fab i Mrs. J. Huws-Roberts Park Villa.

**MERCHED Y WAWR** — Cafwyd noson amrywiol o hwyl a chân yng nghwmni Gwilym Rees Parry, Kenneth Morris, Richard Parry a John Gruffydd. 'Roedd tipyn wedi dod ynghyd, er fod y tywydd mor arw ac fe ymunodd pawb yn y miri i fwynhau noson lwyddiannus iawn. Diolchwyd i'r pedwar adlonwr gan Mrs. J.C. Williams, Bod Fair. Dymunwyd adferiad buan i Mrs. G.M. Jones, Y Dalar Deg ac i Mrs. Jones, Gorffwysfa. Diolchodd Mrs. N. Lovatt i Mrs. M. Williams, Mrs. Beti Jones, Mrs. M. Cadwaladr, Mrs. N. Evans a Mrs. V. Bernard am wneud y te. Mis nesaf bydd gwibdaith i Fodeilio, Môn, ac wedyn am fwyd i Glantraeth. Pawb sydd eisiau mynd i roddi eu henwau a'r arian naill ai i Mrs. Margaret Jones neu Mrs. Bethanne Williams cyn diwedd y mis.

**TAITH GERDDED A FFAIR FEDI** — Mewn cyfarfod o Gyngor Plwyfol Eglwysig, plwyf Llanrug penderfynwyd cynnal taith gerdded a Ffair Fedi. Gobeithir y bydd y daith gerdded yn cymryd lle ym mis Awst a chynhelir y Ffair Fedi yn gynnar ym mis Medi. Bydd yr elw i gronfa atgyweirio Eglwys Sant Mihangel, a cheir manylion ymhellach ymlaen.

**GŴYL GORAWL ERYRI** — Cynhaliwyd Gŵyl Gorawl Eryri yn Eglwys Crist, Llandinorwig ar nos Iau y Dyrchafael ac ar y Sul wedi'r Dyrchafael. Cymerwyd rhan gan offeiriaid plwyfi rhanbarth Eryri. Arweinydd Gwyl yr Oedolion oedd Mr. James Griffiths, Glasinfryn, ac arweiniwyd Gwyl y Plant gan Reithor Llanrug. Yr organydd oedd Mr. Edwards, organydd Eglwys Crist Llandinorwig. Yr arholwr a beirniad y gwaith ysgrifenedig oedd Miss C.A. Gillespie, Llanberis. Aeth cynrychiolaeth dda o blwy Llanrug i'r ŵyl a daeth y plant yn llwyddiannus iawn yn eu arholiadau.

**DERBYN AELODAU IEUAINC** — Yn ystod mis Mehefin cafwyd gwasanaethau arbennig gan yr Eglwys Bresbyteraidd yn y Capel Mawr, Pontrhythallt a Thanycoed pryd y derbyniwyd un ar ddeg o bobl ieuainc y bu'r Gweinidog, y Parch. W.O. Roberts yn eu hyfforddi yn aelodau cyflawn o'r eglwys. Dydd Sul, Mehefin 5ed derbyniwyd y rhai a ganlyn yn oedfa'r bore yn y Capel Mawr: Gwennan Griffith, Hafan; Carole Anne Jones, Pant Clyd; Karen Elizabeth Jones, Glyn Awel; Einir Wynne Owen, 1 Glan ffynnon; Linda Williams, 2 Glanffynnon; Gareth Lloyd Roberts, Ceris; Linda Williams, 2 Rhos Rug a Karen Aubrey Williams, Regent House. Yn oedfa'r bore ar y Sul, Mehefin 19, derbyniwyd David Owen, Ferndale; Glanffynnon yn aelod cyflawn yn eglwys Pontrhythallt ac yn y prynhawn yn Nhanycoed derbyniwyd Anita Jones, 7 Maesgerddi a Dylan Bryn Jones, 3 Tai Tanycoed yn aelodau cyflawn o'r eglwysi yno. Derbyniodd yr oll ohonynt yr Ordinhad o Swper yr Arglwydd yn union ar ôl eu derbyn. Dymunir fendith Duw i'r aelodau ieuainc hyn trwy gydol eu hoes.

**GWOBRWYO AM DDYSGU AR Y COF** — Yng Nghapel Pontrhythallt bore Sul, Mehefin 19 cyflwynodd y gweinidog, y Parch. W.O. Roberts, lyfrau i blant yr Ysgol Sul yn wobrwyon am eu gwaith yn dod yn llwyddiannus yn Arholiad Llafar, Cyfarfod Ysgolion Cylch Caernarfon. Gwobrwywyd y plant a ganlyn: Meinir a Mandy Williams, Ieuan a Iola Wyn Griffith, David Martin Roberts, Marion Owena Roberts, Diana Sharon ac Ian Thomas. Cyflwynwyd tystysgrifau am eu gwaith yn y dosbarth hynaf i Mrs. Mary Lloyd Williams, Llys Awen a Mrs. E. Whiteside Thomas, Dolwar.

**Y SEINDORF** — Mae r Seindorf yn brysur iawn y dyddiau hyn. 'Roeddynt yng Ngharnifal y pentref ar y 18fed o Fehefin, a bu'r aelodau hynaf yng Nghanolfan Tanybont ac yng Nglwb y Ceidwadwyr, Caernarfon, nos Sadwrn, Mehefin 25ain. Byddant yng Ngharnifal Llanfairfechan, Y Felinheli a Chaernarfon ym mis Gorffennaf.

**CROESO O'R YSBYTY** — i Mrs. G.M. Jones, Y Dalar Deg a Mrs. J.M. Jones, Gorffwysfa.

**YN YR YSBYTY** — Dymunir gwellhad buan i Miss Gracie Williams, Glasgoed, Rhos Rug sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty ym Mangor.

**COLLED** — Yng Ngorseinion, Abertawe ar Fehefin 6ed bu farw Mr. Ifan Aled Jones, unig fab Mrs. Jones a'r diweddar Mr. Morgan Jones, Bronallt, Pontrhythallt. Cynhaliwyd gwasanaeth ym Mronallt i Mrs. Jones, gan ei gweinidog, Y Parch. W.O. Roberts. Estynnir cydymdeimlad llwyraf yr ardal â'i fam, ei briod a'i ferch yn eu profedigaeth.

**YN GWELLA** — 'Rydym yn falch o weld Mrs. Nansi Roberts, Annedd Wen wedi gwella ar ôl iddi gael damwain yn ei chartref.

**CYDYMDEIMLAD** — Cydymdeimlir â Mrs. Kate Olwen Owen, Stad Mountain View yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, Miss Mattie Owen, Rhos Ddu. Cydymdeimlwn hefyd â Mr. a Mrs. Howells, Bryn Elert. Bu farw brawd Mrs. Howells yn ddiweddar

**LLONGYFARCHIADAU** — i Mr. Peris Jones-Evans, mab Mr. a Mrs. G. Jones-Evans, 39 Bro Rhyddallt ar ei benodi yn Ddirprwy-brifathro, Ysgol Uwchradd Llanrwst. Ar hyn o bryd mae Mr. Jones-Evans yn athro yn Ysgol y Berwyn, Y Bala.

**YSGOL FEITHRIN** — Dymuna pwyllgor yr ysgol feithrin ddiolch i'r ardalwyr a phawb a'u cefnogodd ar eu taith gerdded i gasglu arian i'r ysgol.

**PRIODAS AUR** — Bydd 16 Gorffennaf yn ddydd go arbennig i Jane Ann ac Owen Henry Jones, Llwyn Onn, Ffordd yr Orsaf, oherwydd hanner can mlynedd i'r dydd hwnnw yn 1927 y'u priodwyd yng Nghapel Annibynwyr Park Road, Lerpwl. Un o fodins Caernarfon yw Mrs. Jones, mae'n hoffi canu a bu'n aelod o gorau mawr yn Lerpwl yn ei dydd. 'Roedd hefyd yn ymwelydd cyson â chleifion mewn ysbytai. O Glwt-y-bont y daw Mr. Jones sydd fel ei wraig yn 78 oed. Ymunodd â'r fyddin yn 15½ oed adeg y Rhyfel Byd Cyntaf, yna gweithio gyda'r Heddlu ac fel Security Officer cyn gorffen ei yrfa yn y chwarel. Dymunir Priodas Aur fendigedig a hir oes i'r ddau!



**98% — DA IAWN!** — Cyflawnwyd cryn orchest gan Elwyn Thomas, Hafan, Ffordd Glanffynnon, capten Clwb Reiffl Cricieth yn rownd gyntaf Cystadleuaeth Jiwbili Arian y Frenhines NSRA/Eley. Wrth ennill ei ffordd i'r rownd nesaf dim ond 8 pwynt a gollodd Elwyn allan o 400. Bydd yn derbyn tystysgrif arbennig i gofio'r achlysur.

Ers tair blynedd a hanner yn unig y bu Elwyn yn saethu ond bu'n ymarfer yn ddygn drwy hindda a drycin ac o'r diwedd cafodd gyfle i wireddu nod pob saethwr. Am chwe niwrnod o 13 Awst hyd at yr 20fed bydd yn cystadlu yn Bisley yn erbyn goreuon y byd.

'Nela'n syth Elwyn bach, a phob lwc!

**TEYRNGED**
**ALED JONES BA**

**Syndod a siom i'w lu cyfeillion oedd clywed am farw sydyn Mr. Ifan Aled Jones BA. Er yn sylweddoli fod ei iechyd yn ddigon bregus ers amser eto ni esmwythodd hynny ddim ar yr ergyd pan ddaeth. Mae'n eithriadol anodd dygymod â'r ffaith ei fod wedi ein gadael, ac â'r bwlch a'r gwacter o i ôl.**

'Dydw i ddim yn cofio amser pryd nad oeddwn yn adnabod Ifan Aled. Un o "hogia Bont" oedd Ifan, ac yn y cyfnod hwnnw pan oeddym blant ym Mhontrhythallt 'roedd yna ryw arwahanrwydd rhwng "plant Bont" a phlant pobman arall.

Aeth yntau fel pawb ohonom i ysgol Llanrug ac oddi yno wedyn i Frynrefail. Reidio beics fyddem i'r ysgol, weithiau ar hyd y briffordd trwy Cwm, a Phenllyn, ac weithiau ar hyd y llwybr gydag ochr lein trên chwarel trwy Stabla ac ymlaen i Frynrefail. Cofiaf y funud yma am yr hen "Royal Enfield" a'i handyls "half-drop". 'Roedd Ifan yn fachgen llawn iawn ym mywyd yr ysgol, a rhoddodd gyfrif da ohono'i hun yn ei waith ac yn ei chwarae, ac yn gydwybodol yn y ddau gylch. Yna, i'r Brifysgol yn Aber lle graddiodd gydag anrhydedd mewn daearyddiaeth.

Bu raid iddo yntau, fel llu ohonom, ymuno â'r fyddin, a gwelodd wasanaeth mewn llawer cylch, gan gynnwys Burma.

Cyfarfu â'i briod Betty Lloyd, yn Aber, lle graddiodd hithau gydag anrhydedd mewn economeg a sefydlodd y ddau eu cartref yng Ngorseinion, lle penodwyd ef yn athro.

Athro o'r iawn ryw oedd Ifan. Nis gallai neb fod yn hir yn ei gwmni heb ddod yn ymwybodol o'i hoffter o blant, ac 'roedd ei anwyldeb tuag atynt yn un o brif nodweddion ei fywyd i mi.

Hyfryd oedd clywed gweinidog y llynedd ar faes y Steddfod yn Aberteifi yn talu teyrnged i'w gyfraniad i fywyd Eglwys a chylch.

Cafodd ei benodi yn Drefnydd Addysg Bellach ym Morgannwg, ac mae eraill 'rwy'n siwr all dalu teyrnged i'w gyfraniad yn y swydd gyfrifol honno. Parhaodd wrth ei waith i'r diwedd. Ychydig cyn ei farw 'roedd wedi dychwelyd o gynhadledd yn Llydaw, lle bu ynglŷn â'i waith.

Mae ein cydymdeimlad yn llifo at ei briod a fu'n gymaint o gefn iddo ac yn gysur, ac yn gymar mor gampus, ac at ei ferch, Mayda.

A chofiwn am ei fam, ym Mronallt 'Roedd Ifan yn fawr ei ofal a'i gonsyrn amdani ac fe'i hanrhydeddodd i'r eitha 'Roedd yno mor amal fyth ag y gallai, ac yn teithio pan oedd hynny yn gryn dreth, bid siwr.

Y tro olaf oedd Ifan adra yn Bont, 'roedd yn canmol *Eco'r Wyddfa* i'r cymyla ac 'roedd ynta yn gwerthfawrogi'r papur campus, fel pawb ohonom, ac yn edmygydd o'r hogia sy'n gyfrifol amdano. 'Roedd wedi addunedu sgwennu erthygl a'i hanfon i'r golygydd. Ysywaeth, ni chaniatawyd iddo gyflawni na gweithredu ar ei fwriad, ac 'rydym i gyd yn dlotach o'r herwydd.

Diolch am un ac mae deigryn a bwlch enfawr ar ei ôl, a llawenydd a diolchgarwch am a gawsom yn ei gwmni.

Cyfaill


CWESTIWN
Be' di'r ffordd hawsa' o symud llwyth o Lanber i Landudno, o Deiniolen i Dundee ac o Fethel i Fanceinion?
ATEB
H.F. OWEN
YMGYMERWR CLUDIANT — HAULAGE CONTRACTOR
BRON MEILLION
Bethel
Ffôn: Port Dinorwig 487
Fe gariwn rywbeth i rywle (bron!)

# CWM-Y-GLO

**CYMANFA GANU** – Cynhaliwyd Cymanfa Ganu, yn gysylltiedig â'r carnifal, yng Nghapel y Tabernacl, nos Sul y 19eg o Fehefin. Estynnwyd croeso i'r gynulleidfa gan Mr. Llew Hughes, un o flaenoriaid y capel, ac ef, ynghyd â'r Rheithor, Y Parch. Gwynfor Williams, gymerodd ran yn y gwasanaeth agoriadol, a'r diolchiadau. Fel y llynedd, yr Arweinydd oedd Mr. Irfon Ellis, Llanberis, a'r organydd oedd Mr. R.H. Parry, un o hogiau'r Cwm hyd yn weddol ddiweddar. Daeth Parti Glyn Rhonwy hefyd i roi eu gwasanaeth.

Dan arweiniad dawnus Mr. Ellis, presenoldeb nifer o aelodau Côr Ferodo, a chefnogaeth ardderchog y pentrefi cyfagos yn cynnwys llawer yn dwyn cysylltiad â'r Cwm, cafwyd gwledd o ganu ysbrydoledig. Dymuna'r Pwyllgor – y rhan fwyaf ohonynt o'r Clwb Ieuenctid – ddiolch yn ddiffuant iawn i Mr. Ellis am ei arweiniad gwych, i Mr. R.H. Parry am ddod o Landudno i fod yn organydd galluog, i Barti Glyn Rhonwy am eu cyfraniad teilwng, i aelodau Côr Ferodo am eu cynorthwy, i Mr. Eric Morris am ei gymorth parod, i Mr. Maldwyn Hughes a weithiodd mor ddiwyd i sicrhau llwyddiant y Gymanfa, i Mr. Llew Hughes a'r Rheithor am eu gwasanaeth, i Swyddogion ac aelodau'r Tabernacl am fenthyg y capel, ac i bawb o'r pentrefi cylchynol, a thrigolion Cwm-y-glo am eu cefnogaeth ym mhob rhyw fodd. Gobeithio i chwi i gyd deimlo "mai da oedd i chwi fod yno".

**GWELLHAD LLWYR** – Dyna'r dymuniad i chi o'r Cwm sydd mewn ysbytai – Mr. Wyn Morris, 2 Stryd Newydd, Mr. Aled Evans, Tŷ Newydd a Mr. Emlyn Watkins sydd mewn ysbyty ers tro. Ein cofion atoch, gan hyderu y gwelwn chwi gartref yn fuan. Da yw deall fod Medi, merch fach Mr. a Mrs. Sam Jones, Glan y Don yn gwella'n foddhaol wedi triniaeth mewn ysbyty. Balch ydym o weld Mrs. Owen, Isfryn a Mrs. Hughes Crag y Don wedi gwella a dod o amgylch y pentref unwaith eto.

**YMGEISYDD LLAFUR** – Bu cyfarfod yn yr ysgol nos Lun, Mehefin 20fed, er rhoi cyfle i'r cyhoedd gwrdd â Mr. Merfyn Hughes, sydd wedi ei fabwysiadu yn ymgeisydd y Blaid Lafur dros etholaeth Arfon. Cyflwynwyd Mr. Hughes gan y Cynghorydd Francis Jones, ac wedi anerchiad, caed cyfle am drafodaeth. Ar ddiwedd y cyfarfod cymerwyd y cam cyntaf i sefydlu Cangen o'r Blaid Lafur yn y pentref.

**DATHLU'R JIWBILI** – Paratowyd te parti ar gyfer y plant a'r pensiynwyr i ddathlu Jiwbili'r Frenhines. Yn dilyn, cyflwynwyd medalau a threfnwyd chwaraeon i'r plant gan Mr. Emrys Hughes, Lerpwl (Craig y Don gynt). Cafwyd amser da, ac yna cyflwynwyd plât i goffau'r achlysur i Mrs. Margaret Rowlands (gofalydd yr ysgol) ac i Mr. Emrys Hughes gan Mrs. Higgins, Bron Eryri.

**CYDYMDEIMLO** – Cydymdeimlwn â Mr. a Mrs. Pritchard, 23 Dolafon a'r teulu i gyd, ar farwolaeth brawd Mr. Pritchard, a drigai yn Nant y Glyn, Llanrug.

**MERCHED Y WAWR** – Cynhaliwyd Noson Goffi ac arwerthiant yn ystod mis Mai er galluogi'r gangen i fynd â'r pensiynwyr am drip i Landudno, ar Orffennaf 16. Enillwyr y raffl oedd Mr. Garry Owen, 15 Stryd Siarlot Llanberis, Mr. J. Phillips, 3 Groeslon a Mr. Lloyd Owen, 3 Dolafon, Cwm-y-glo. Diolch cynnes i bawb am eu cefnogaeth.

Ar Fehefin 11eg y bu'r daith ddirgel eleni. Er i'r hin fod braidd yn angharedig, 'roedd y cwmni bach mewn ysbryd hapus. Aed drwy fwlch Llanberis i Gerrig y Drudion cyn troi i'r mynydd i gael golwg ar gronfa ddŵr ddiweddar Brennig. Ymlaen i Lansannan, y fro ddiwylliedig a fagodd gymaint o gymwynaswyr mawr Cymru. Rhoddwyd tipyn o hanes y lle gan un o'r trefnwyr, a chafwyd cyfle i ymweld â Chapel Coffa Henry Rees, lle canwyd ychydig emynau yng nghwmni'r organyddes groesawgar. Gwelwyd hefyd gapel coffa Gwilym Hiraethog, y neuadd gymdeithasol lewyrchus, cofgolofnau Edward Pen y Bryn – awdur yr emyn 'Caned nef a daear lawr', a chof-golofn yr enwogion, gyda'r cerflun hardd o'r eneth fach arni. Diddorol gweld gwesty'r Llew Coch lle, meddir, yr arferid gynt gynnal cyfarfodydd y Wesleaid, a'r Ŵyl mabsant. Draw i Ddinbych am de a thro o amgylch y siopau, gan basio'r tir lle safai gynt y bwthyn lle ganed Twm o'r Nant.

I Lanelwy i'r Eglwys Gadeiriol wedyn lle 'roedd tywysydd ffraeth i roi hanes yr Eglwys a'n harwain i weld ei chreiriau, a'r amgueddfa fach gysylltiedig. Swper ardderchog yn "Kinmell Manor" cyn dychwelyd gyda'r glannau. Trefnwyd y daith y tro hwn gan Mrs. Margaret Williams, Nant Forgan, Miss Mair Rowlands, Bodafon a Mrs. Gwyneth Chick, Tan y Bryn. Diolchwyd iddynt gan bawb.

# TAN-Y-COED

**DATHLU** – Mehefin 7ed mwynhaodd plant ardal Tan-y-Coed eu hunain yng Nghastell Bryn Bras. Cawsant de parti a chwaraeon ar ôl hynny. Yn ychwanegol cafodd pob plentyn faner, mwg ac india-roc.

Tynnwyd lluniau y plant gan Mr. Ieuan Owen, Caernarfon.

Yn ddiweddarach plannwyd coeden yng ngardd y Castell i gofio'r achlysur ac i ddatgan diolchgarwch y plant.

Diolch i Mr, Gwilym Jones, Monumental Works am roi y plac i'w osod ger y goeden ac i deulu'r Castell am y croeso ar y pnawn arbennig hwn.

**YN GWELLA** – Croeso adre i Mr. Ifor Williams, Cartref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty. Da deall ei fod yn gwella.

**DERBYN YN GYFLAWN AELOD** – Pnawn Sul Mehefin 19eg y gweinidog y Parch. W.O. Roberts yn gwasanaethu, derbyniwyd Anita Edmund Jones, 7 Maesgerddi a Dylan Bryn Jones, 3 Tan y Coed yn gyflawn aelodau o Eglwys Tanycoed M.C.

Canolfan Tanybont

CYSTADLEUAETH DALENT

£50 o wobr

Beth am gynnig?

MANYLION PELLACH O'R GANOLFAN
Caernarfon 4958

# BETHEL

**LLONGYFARCHIADAU** – i Sandra Evans, 28 Bro Rhos. 'Roedd Sandra yn 18 oed ar yr 28ain o Fai.

**CYDYMDEIMLAD** – Dydd Mercher y 15ed o Fehefin bu angladd Mrs. Gret Griffiths, Maengwyn, Saron. 'Roedd Mrs. Griffiths yn 72 mlwydd oed.

Yn sydyn, dydd Mawrth, Mehefin 21 bu farw Mr. Richard Owen, Saron yn Ysbyty Môn ac Arfon. Bydd yn chwith colli ei chwerthiniad iach a'i gyfarchiad llon yn y pentref.

Ar ôl gwaeledd hir bu farw Mrs. Lewis, Tre Gof ddydd Mawrth, Mehefin 21ain yn 71 mlwydd oed.

Mae ein cydymdeimlad llwyraf â'r tri theulu yn eu profedigaeth.

**EISTEDDFOD GADEIRIOL BETHEL** – Mae Pwyllgor yr Eisteddfod wrthi'n brysur yn llunio'r testunau am eleni. Eisoes cafwyd addewid o Gadair gan Mr. Dafydd Williams, Bryn Rhedyn. Mae'r pwyllgor wedi penderfynu cynnal raffl i godi arian at yr Eisteddfod eleni, a byddant yn gwerthu'r tocynnau yn ystod yr haf.

**MERCHED Y WAWR** – Nos Fercher, y 15ed o Fehefin cafwyd cyfarfod olaf y Gangen am y flwyddyn. Trefnwyd gwibdaith i Garchar Biwmares. Aed â ni o gwmpas y carchar gan Mr. Rhodri Prys Jones, Adran Archifydd y Sir. Gorffennwyd y noson yn Nhŷ Mawr, Llanfairpwll.

Ar y nos Fawrth ddilynol dechreuodd y pwyllgor newydd ar y gwaith o dynnu'r rhaglen am y tymor nesaf. Bydd y tymor nesaf yn agor ar Fedi 14eg a gobeithir cael cynulliad da o'r hen aelodau a rhai newydd yn y cyfarfod. Penodwyd Mrs. Gwyneth Williams, Llain yr Ardd yn ohebydd y Wasg, Mrs. Mair Price a Mrs. Madge Williams i gynrychioli'r gangen ar bwyllgor y Neuadd, Mrs. Anne Elis a Mrs. Madge Williams i gynrychioli'r gangen ar Bwyllgor Rhanbarth Merched y Wawr.

**YMCA** – Erbyn hyn mae'r Y.M.C.A. wedi cau dros dymor yr haf. Yn ystod yr haf bwriedir ehangu tipyn ar yr ystafell. Bydd hyn yn gwneud yr ystafell yn fwy hwylus i'r chwaraewyr a'r gwylwyr.

Mae aelodau pwyllgor y Y.M.C.A. wrthi'n gwerthu tocynnau 'Raffl yr Haf'. Ar Awst 30 fe drefnir gêm rhwng tîm Bethel a thîm lleol arall pryd y tynnir y raffl.

**TRIPIAU'R YSGOL SUL** – Yfory bydd plant ysgolion Sul Bethel yn mynd am drip i'r Rhyl. Gobeithio y deil y tywydd yn braf ac y daw pawb adref wedi cael diwrnod i'w gofio.

# *Teyrnged i Richard Owen*

**MAE'N anodd credu yn tydi? Richard Owen o bawb yn dawel ac yn fud. Y trên ola wedi galw amdano. Chwibanodd y Giard Mawr ei bib, a chafodd Richard Owen, a dreuliodd ei oes yng nghabin y dreifar, gompartment 1st class i'w gludo adra.**

Gŵr cartrefol oedd Richard hyd yn oed pan ddreifiai drêns. Wedi ymddeol, a chartrefu yn Nisgwylfa – bu'r un mor gartrefol. Y Post, Blaen Parc, Y Gors Bach a'r Cysegr – dyna'r sdesions y byddai'n galw ynddynt. Fuo Richard fawr pellach na Chaernarfon ar ôl ymddeol.

Cofiaf fynd ag o i Fangor un noson heb ei baratoi ar gyfer y daith. 'Roedd o'n hynod o anghysurus, nes imi droi trwyn y car at adra.

Ia, dyn yr injian stêm oedd Richard. Yn fuan wedi iddo ymddeol, cofiaf imi dynnu ei goes drwy ffonio iddo i'r "syrjeri", a chynnig job iddo dros yr ha' i ddreifio trên bach yr Wyddfa. Cefais i (barchus Reolwr Trên Yr Wyddfa) fy rhegi'n anrhugarog, ac er i mi erfyn arno i gymryd y job a chynnig ffortiwn o gyflog iddo – y gair ola' a glywais yn atsain yn fy nghlust oedd: "retired, my boy," a'r ffôn yn glec.

Ydi, mae Richard wedi "riteirio" o ddifri rwan. Fe gollodd Stryd Bach ei brenin – daeth distawrwydd dros y "Gaza Strip". Diflannodd sŵn y traed trymion – yr ebwch a'r peswch a'r cyfarchion boreuol. Dim mwy o "dislocated shoulders" na phoenau o "gowt". Gall cenhadon y Gair fentro traddodi pregeth hir o bulpud y Cysegr rwan. Bydd ei le yn wag yn y Seiat a bydd y Gors yn dlotach o'i golli. Dyn ar y wyneb oedd Richard – dyn gonest.

Ia Richard Owen, brenin y dreifars trên, Maer Stryd Bach, y cymwynaswr a'r cymeriad gonest yn cyrraedd adra.

Hwyl Richard. Iechyd Da.

Selwyn

Gwesty Dolbadarn

Tŷ Rhydd-Feddiant

Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog Aneuryn Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein
telerau rhesymol



# Y GŴR GWADD

**Y PARCHEDIG JOHN OWEN B.A., B.D.**

**Mi fyddai wedi bod yn llawer haws ysgrifennu'r cyflwyniad hwn i'r Parchedig John Owen B.A., B.D. Llanberis pe bai newydd ymuno â ni fel cymdeithas. Ond ar fin ymadael â'r fro am Ddyffryn Clwyd y mae Mr. Owen a'i deulu, ac fe gymer hyn amser hir iawn i rai ohonom ddygymod â'r golled. Nid oes angen cyflwyniad, – mae ei wasanaeth diflino fel gweinidog yr Efengyl yn Llanberis am dair blynedd ar ddeg wedi sicrhau y bydd enw'r Parchedig John Owen yn parhau dros y blynyddoedd ac y byddwn yn cofio amdano ef a'i deulu gydag anwylder ac edmygedd diffuant.**

**Cafodd John Owen ei eni a'i fagu yn Nhregaian, Môn, ym Mro'r Morysiaid. Aeth i Ysgol Gynradd Tŷ Mawr yn Llanfihangel Tre'r Beirdd, ac yna i Ysgol Ramadeg (Gyfun wedyn) Llangefni. Aeth oddi yno i Goleg Prifysgol Aberystwyth, ac yna Bangor. O'r coleg daeth i Lanberis yn 1964.**

**Gallwn fel gweithwyr Eco'r Wyddfa ymhyfrydu yn y ffaith i ni gael cydweithio ag ef ar y papur. Diolchwn iddo am ei wasanaeth fel Prif Ohebydd, aelod o'r pwyllgor cyfrannwr erthyglau, – ond yn bennaf oll teimlwn hi'n fraint o fod wedi cael ei adnabod fel ffrind.**



Pan ddeuthum i Lanberis 13 mlynedd yn ôl i fod yn weinidog ar Gorffwysfa a Phreswylfa, yn fy niniweidrwydd, credais fy mod yn dod i fro chwarelyddol gyda'r dynion o bob tŷ yn troedio am y chwarel bob bore. Darlun T. Rowland Hughes oedd gen i – darlun dechrau'r ganrif. Syndod i mi oedd deall bod y rhelyw yn gweithio un ai yn Y Wylfa, Ferodo neu Peblig. Dipyn o sioc oedd deall fod y chwarel i gau. Ymhen rhai blynyddoedd wedyn, daeth BCCT i'r fangre i adeiladu'r orsaf drydan dan-ddaearol sydd yn cyflogi o ddwy i dair mil o bobl. Dyma'r newid mwyaf yn economaidd sydd wedi digwydd yn y cylch. Roedd cyflogau da i'w cael yn y chwarel yn y chwedegau, ond dim byd tebyg i'r cyflogau a enillir heddiw, ac nid yw'r peryglon yn fwy heddiw nag oeddynt i'r chwarelwr gynt. Gyda'r newid hwn, y mae un peth yn fy mhoeni. Wedi'r bŵm dros dro, beth fydd yn wynebu pennau teuluoedd a'u plant wedi cwblhau'r cynllun?

Un peth a'm synnodd yn fawr ynghylch yr ardal fechan hon oedd nifer yr addoldai. Yn 1964 roedd 10 addoldy ar gyfer 1500 o oedolion. Mae Seion (B) wedi cau. Faint ohonynt fydd wedi cau ymhen 13 mlynedd arall? Erbyn hyn, mae yma siop fetio, ac un dafarn yn ychwanegol. Mae 7 'restaurant' trwyddedig, lle'r oedd 1 yn 1964. Gellir cael alcohol dros gownter dwy siop nesa' i'w gilydd yn ogystal.

Cafwyd cartref i'r henoed a flatiau i'r pensiynwyr yng nghanol y gymdeithas. Wedi'r hir gwyno, cafwyd syrjeri yn y clinic. Codwyd llyfrgell ddymunol i browla am lyfr. Faint ohonom sy'n manteisio arni tybed? Caed Canolfan i'r pentref o'r diwedd er nad yw yr adeilad presennol yn gymwys fel ag y mae, gan mai un gymdeithas all gyfarfod yno ar y tro. Sefydlwyd D.I.G. ychydig flynyddoedd yn ôl i ofalu am y methedig yn y cylch, a thua'r un amser sefydlwyd Ysgol Feithrin i'r Babanod. Mae'r ddeubeth wedi cymryd eu lle ac yn cyflawni gwasanaeth buddiol ac angenrheidiol.

Bu newid go sylfaenol yn yr hinsawdd wleidyddol hefyd. Nid cymdeithas farw sydd yma. Cymdeithas Gymraeg oedd cymdeithas y chwareli a ddisgrifir gan T. Rowland Hughes (Caed carreg o'r diwedd i nodi man ei eni ac y mae Angorfa, cartref ei blentyndod a'i lencyndod yn cael ei addasu ar hyn o bryd, er cof amdano) yn ei nofelau, ac yn hynny ni'm siomwyd yn Llanberis. Braf, wrth chwilio am gartref aelod yn ystod y misoedd cyntaf a minnau yn holi plentyn amdano, oedd clywed y plentyn yn ateb "Rhif dau ddeg chwech ydach chi isio". Credais fod y chwarelwr ar y bonc ac yn y caban yn trafod diwinyddiaeth pregethwr y Sul cynt neu'n dadlau pynciau astrus a godwyd yn yr Ysgol Sul, ond fe'm sicrhawyd mai'r pynciau mawr oedd y ceffyl na ddaeth yn gyntaf yn y3.30 neu nifer y 'draws' oedd ar y cwpon pêl-droed. Un ochr i'r geiniog yw hynny wrth gofio am gôr Ferodo a chôr Glynrhonwy (merched) erbyn hyn. Mae rhai o hyd yn ymddiddori mewn côr, drama band a Dosbarth W.E.A., heb anghofio cyfraniadau arbennig Hogia'r Wyddfa a Genod Ni, Edrycher ar Galendr Misol Eco'r Wyddfa ac fe synnech faint o weithgareddau sydd yma. Pwy gwynodd y dydd o'r blaen nad oes dim yn digwydd yn Llanberis? Y wyrth fawr erbyn hyn, yw fod y gweithgareddau hyn yn digwydd yn Gymraeg, ac y mae iaith arwyddion y strydoedd, iaith y Carnifal a iaith Eco'r Wyddfa yn adlewyrchu hynny. Mae'n bwysig eu bod yn parhau felly. Beth am y sefyllfa grefyddol? Yn 1964 roedd pedwar ohonom yn Llanberis yn gofalu am nifer o eglwysi'r cylch. Un fydd ar ôl ar 1 Orffennaf. Dyna fesur y newid.

Mae'r aelodaeth eglwysig wedi mynd yn llawer llai, a'r broses fel petai'n cyflymu bob blwyddyn; ond nid yn ôl ystadegau y mae mesur popeth, diolch am hynny. Os bu dirywiad ystadegol, caed ysbryd newydd rhwng capeli ac enwadau gyda mwy a mwy o gyd-weddïo a chydweithio rhyngom. Canlyniad Ymgyrch Cymru i Grist oedd sefydlu Cyngor oedd yn cynnwys holl eglwysi'r ardal. Yn obeithiol iawn, mae yna griw bychan deallus a brwdfrydig o bobl ifanc yn arddel y Ffydd Gristnogol mewn cyfnod pryd nad yw'n ffasiynol o gwbl i berson ifanc ei gysylltu ei hun â hi. Ni ellir peidio â chymharu'r tai a'r gwestai moethus ar y naill law a'r capeli mawr, beichus, tri chwarter gwag ar y llaw arall.

Ar y diwedd, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'm gofalaeth am roi'r cyfle i mi fod yn weinidog mewn ardal Gymraeg, amrywiol ei thalentau, i'r ardal am y fagwraeth a gafodd fy mhlant ac i bawb am bob caredigrwydd a gawsom fel teulu. Diolch, gyda phob dymuniad da i Eco'r Wyddfa a'r fro y mae yn ei wasanaethu. Os na welaf yr Wyddfa o Ruthun, byddaf yn gofalu y daw ei heco i'm cartref bob mis!

John Owen.

# Jiwbili Cynnar



*CYFLWYNWYD y plât uchod ar achlysur Coroni y Brenin Edward V11 ym Mehefin 1902 i Mrs. Martha Roberts, gynt o Ty'n Llidiart, Seion, yn ysgol Llanddeiniolen pan oedd yn 7 oed.*

*Mae'r plât yn awr ym meddiant y plant, Rhiannon, Leslie, a Megan.*

Oherwydd prinder gofod, dyma'r unig un o'r nifer lluniau cyffelyb y gellid ei gynnwys.

## DATHLU DAU CANMLWYDDIANT CAPEL COCH 1777 – 1977

**MAE gweithgareddau i ddathlu dau canmlwyddiant Capel Coch Llanberis ym mis Hydref 16–23 wedi eu trefnu yn barod gan bwyllgor y capel.**

**Nos Sul Hydref 16 bydd yr Ofalaeth yn ymuno â Dinorwig mewn gwasanaeth o Gymun yng Nghapel Coch.**

**Prynhawn dydd Llun Diolchgarwch, Hydref 17, trefnir pererindod i Lwyncelyn. Yna, nos Fawrth Hydref 18, bydd noson o ddathlu yng nghwmni cynaelodau ac aelodau'r eglwys. Cynhelir Cyfarfod Pregethu yng Nghapel Coch nos Fercher, Hydref 19, dan ofal Y Parch. Meirion Lloyd Davies, Pwllheli i ddechrau am 7.00.**

**Gorffennir y dathlu gyda Chymanfa Ganu fawr yng nghwmni Côr Meibion Penrhyn nos Sul, Hydref 23ain i ddechrau am 7.30. Cewch fwy o fanylion eto yn yr *Eco* yn ystod y misoedd nesaf.**

**Rhaid cofio hefyd fod llyfr ar fin ei gyhoeddi ar "Hanes yr Achos gan yr Eglwys" gan y Parch. John Owen, BA, BD., gyda chyfraniadau ynddo gan y Parch. Alwyn Parry, MA., BD. cyn-Weinidog yr eglwys a Mrs. J.P. Davies.**

**Bydd pris y llyfr o dan £1. Gyrrwch eich archebion gynted ag sydd bosibl i: Mr. R.G. Williams 11 Rhes Fictoria, Llanberis.**


**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL FRENHINOL CYMRU**
**WRECSAM a'r CYLCH Awst 1–6 1977**

**LLUN**
Agor yr Eisteddfod. Cystadlaethau – Bandiau Pres. Corau Cymysg

**MAWRTH**
Yr Orsedd. Cystadlaethau Plant a Ieuenctid. Seremoni Coroni'r Bardd.

**MERCHER**
Cystadlaethau Lleisiol. Corau. Seremoni'r Prif Lenor

**IAU**
Yr Orsedd. Cerdd Dant. Adrodd. Seremoni Cadeirio'r Bardd

**GWENER**
Rhuban Glas Ieuenctid. Alawon Dawns Werin. Seremoni Croesawu'r Cymry ar Wasgar

**SADWRN**
Cystadleuaeth Tlws David Ellis. Corau Meibion

*Tocynnau £1.50 a £1.25. Tocyn Wythnos: £15 a £10: John Roberts, Trefnydd, Swyddfa'r Eisteddfod, Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam, Clwyd,*

# DEINIOLEN

**EGLWYS LIBANUS CLWTYBONT** – Eleni mae Eglwys Libanus yn dathlu canmlwyddiant agor y capel. Daeth nifer dda o gyfeillion o eglwysi'r pentref i'r capel bnawn Sul, Mehefin 26 i flasu Pasiant wedi ei baratoi gan y Gweinidog, y Parch. Ifor Williams, yn olrhain hanes yr Achos yn Libanus o'r cychwyniad.

Yn oedfa'r hwyr yr un noson mwynhawyd cwmniaeth aelodau Eglwysi Sardis, Dinorwig a Phenuel, Bangor a oedd wedi eu gwahodd i gydgyfranogi o'r Cymundeb a weinyddwyd gan y Gweinidog.

Gwedd arall i'r dathlu eleni yw croesawu'r cyn-weinidogion i dreulio Sul yma yn eu hen faes. Eisoes cafwyd ymweliadau gan y Parchgn. Denis Jenkins a W. Gwyn Thomas, a disgwylir y Parch. W. Clifford Davies yma ar Orffennaf 17eg, a'r Parch. T.G. Morgan i bregethu yn y Cyrddau Blynyddol ar Fedi 11eg.

**LLONGYFARCHIADAU** – Llongyfarchiadau gwresog i ddau o hogia'r ardal (y ddau ohonynt yn dilyn traddodiad teuluol fel aelodau selog o'r Seindorf), sef Irfon Price Morris, 2 Tai Dinorwig, Clwtybont, ar ennill ohono radd B.Sc. ym Mhrifysgol Bangor, a Gwyn Parry, B.A., Bro Dawel ar ei apwyntiad yn athro Addysg Grefyddol a Chymraeg yn Ysgol Uwchradd Emrys ap Iwan, Abergele.

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CAERNARFON A'R CYLCH 1979**– Nos Fawrth, Mehefin 21ain daeth cynrychiolaeth gryno o'r gwahanol gyrff yn y pentref i Ysgol Gwaun Gynfi i wrando ar Mr. Geraint R. Jones (Ysgrifennydd y Pwyllgor Gwaith) yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer Eisteddfod 1979, a'r cyfraniad a ddisgwylir oddi wrth bentrefwyr Clwtybont a Deiniolen tuag at yr Eisteddfod.

Penderfynwyd ffurfio pwyllgor lleol ac etholwyd y swyddogion canlynol: **Mr Robert Williams(Cadeirydd); Mrs. Eirlys Lloyd Jones (Is-gadeirydd); Mr Leslie Roberts (Trysorydd); Mr. Roanald Wyn Roberts (Ysg ); Mr. Eric Hughes (Banc y Beirdd** Ffurfiwyd Is-bwyllgor i ystyried argymhellion at gyflawni'r gofynion lleol i'w cyflwyno i gyfarfod pellach o'r cynrychiolwyr yn Ysgol Gwaun Gynfi, nos Fercher, Gorffennaf 13eg.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Nos Lun, Mehefin 13eg cyfarfu'r Sefydliad o dan lywyddiaeth Mrs. M.A.Thomas. 'Roedd aelodau Penisarwaun hefyd yn bresennol. Cafwyd crynodeb o waith y Cyfarfod Blynyddol yn Albert Hall, Llundain gan Mrs. D.Williams, ein Hysgrifennydd. Diolchwyd iddi gan y Llywydd. Yn dilyn, cyflwynwyd adloniant trwy ganu, adrodd ac actio gan Sefydliad Deiniolen. Dilynwyd gan bryd bach blasus a sgwrs. Diolchwyd am y croeso gan Lywydd Penisarwaun, Mrs. Eleanor Jones, a dywedodd fod y cyfarfyddiad wedi bod yn hwyliog a gwerthfawr ac y dylid cael un eto yn fuan. 'Roedd dwy raffl, a Mrs. Bessie E.Williams a Mrs. Percy Williams o Benisarwaun oedd yr enillwyr.

Bydd cyfarfod nesaf y Sefydliad ar nos Lun, Gorff. 11eg. Mae gŵr gwadd y bydd yn werth gwrando arno yn dod atom, – cewch ei enw eto!

Mae'r Sefydliad yn gofalu am Stondin yr Eliffant Gwyn yn y Carnifal. Dyma gyfle i rhywun sydd â thaclau i'w troi heibio tra'n glanhau y gwanwyn yma! Os oes gennych rhywbeth y carech gael gwared ohono, rhowch ef at yr achos da yma, os gwelwch yn dda.

**PLAID CYMRU** – Nos Sadwrn, Mehefin 11eg cynhaliwyd Helfa Drysor wedi ei threfnu gan Mr. Dafydd Williams, Gwyn Parry ac Ifan Bryn Roberts Cymerwyd rhan gan bedwar ar ddeg o foduron, ac enillwyr yr Helfa oedd: (1) Gwyndaf Roberts (Llywydd y Gangen). (2) Meirion Jones. Gorffennwyd noson lwyddiannus gyda phryd a chan ym Mhlas Tan Dinas.

Mae Taith Ddirgel wedi ei threfnu ar gyfer nos Sadwrn, Gorffennaf 16eg. Derbynnir enwau gan Gwyndaf Roberts neu Meirion Jones. Dyddiad cau: Gorffennaf 2.



**JIWBILI ARIAN Y FRENHINES**
Darlun o'r 'Teulu Brenhinol' a fu yn dathlu yr Ŵyl Jiwbili efo plant ac aelodion Rhydfadog. Yn y darlun: Y Frenhines (Ann Hughes); Tywysog Philip (Mr. Tydfil Jones); Tywysog Charles (Mr. Philip Jones); Tywysoges Ann (Mrs. Lorna Lewis); Capten Mark Phillips (Mr. Owie Hughes); Y'chaufer' (Mr. Arthur W. Rowlands).

**MERCHED Y WAWR** – Nos Fawrth Mehefin 14 cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol yn Ysgol Gwaun Gynfi. Cafwyd adroddiad o weithgareddau'r tymor gan y Llywydd, Miss Priscie Roberts, hefyd crynodeb o gofnodion Cyngor Cenedlaethol yn Aberystwyth Mai 7ed gan Miss Nansi Owen. Darllenwyd y mantolen gan y trysorydd Mrs. Marian W. Williams. Yn y cyfarfod etholwyd swyddogion canlynol: **Llywydd:** Mrs. Helen Sutherland; **Is lywydd:** Mrs. Dilys Hughes; **Ysgrifennydd:** Mrs. Gwladys Evans; **Trysorydd:** Mrs. Marian W. Williams. **Gohebydd:** Miss Nansi Owen. **Dosbarthwr y Wawr:** Mrs. Helen Roberts. **Trefnydd teithiau:** Mrs. Valmai Williams a Mrs. Margaret Roberts.; **Gofalwyr Rhestr Te:** Mrs. Gladys Jones a Mrs. Margaret Thomas – gyda phwyllgor yn cynnwys: Miss Priscie Roberts; Miss Elinor Jones; Miss Kathleen Jones; Mrs. Margaret C. Griffith; Mrs. Beti Roberts; Mrs. Beryl Hughes; Mrs. Eirlys Williams; Mrs. Katie Jones. Gwahoddwyd Miss Olwen Parry Jones a Mrs. Llew Hughes o gangen Cwm-y-glo i gyfrif y pleidleisiau

Gyda Mrs. Helen Sutherland yn cymryd y llywyddiaeth diolchodd i Miss Priscie Roberts am ei gwaith da ar hyd y flwyddyn. Pasiwyd i ofyn i bwyllgor y Carnifal i argraffu tocynnau raffl, posteri – ac yn y blaen yn Gymraeg o hyn ymlaen. Anfonwyd dymuniadau am wellhad buan i Mrs. H. Rees Owen sydd yn yr ysbyty. Gwesteion y te oedd: Mrs. Helen Roberts, Mrs. Jane C. Hughes, Mrs. Gladys Williams a Mrs. E. Morris a diolchwyd iddynt hwy a'r ddwy aelod o Gwm-y-glo gan y llywydd. Enillwyd y raffl gan Mrs. J.C. Hughes.

Bu nifer o'r aelodau mewn Cymanfa Ganu Gwerin nos Wener, Mehefin 17 pryd y cafwyd gwledd o dan arweiniad Mr. Aled Lloyd Davies a chyflwynwyd barddoniaeth gan Mr. Geraint Lloyd Owen.

Bydd trip y gangen i Bodeilio Talwrn nos Wener Gorffennaf 1af yn cychwyn o'r pentref am 7 o'r gloch.

**NEWYDDION Y SEINDORF** – Yng nghyfarfod blynyddol y seindorf yn ddiweddar gofynnodd y cadeirydd Mr. O.H. Jones i'r ysgrifennydd Mr. M. Jones ddarllen o'r cofnodion, yna archwiliwyd mantolen o'r cyfrifon ac yr oedd hon i foddhad pawb.

Pasiwyd fod y pwyllgor presennol i sefyll am flwyddyn arall. Y swyddogion am 1977–78 yw: Mr. O.H. Jones (Cadeirydd); Mr. M. Jones (Ysgrifennydd); Mr. H.G. Jones (Trysorydd); ac yn ychwanegol at weddill y pwyllgor presennol fe godwyd Mr. T. Williams, Rhydfadog a Mr R.E. Williams, Dinorwig.

Ar hyn o bryd mae'r seindorf yn brysur fynd o amgylch gwahanol bentrefi i gasglu arian tuag at bwrcasu set deledu lliw i ysbyty Gallt-y-Sil.

**YMDRECH ARBENNIG Y CLWB SNWCER** – Mewn dyddiau pan feirniedir ein hoes am fod yn oer a diffygiol ei chefnogaeth mewn llawer modd, codiad i'r galon yw cofnodi yn yr *Eco* ymdrech arbennig y Clwb Snwcer er casglu arian i Gronfa John Ellis, Caeathro.

Bu un ar bymtheg o aelodau'r Clwb yn prysur ddenu nawddogwyr i'w hymdrech i chwarae snwcer yn ddi-dor o saith nos Wener, Mehefin 17 hyd saith o'r gloch bore trannoeth. Daeth rhai o ymddiriedolwyr y Gronfa i'r Clwb i lansio'r ymdrech ar y nos Wener, ac yn ystod oriau mân y Sadwrn cafwyd ymweliad gan y BBC ar gyfer eitem ddarlledwyd ar raglen Helo Bobol fore Llun canlynol i gyhoeddi bod rhagor na £1,000 wedi'i gasglu i'r Gronfa trwy'r ymdrech. Nid yw pen y mwdwl wedi'i gau hyd yma gan y disgwylir rhai o bencampwyr y byd yma i arddangos eu medr ar chwarae snwcer, a bydd yr elw o'r ymweliadau hynny yn mynd i chwyddo Cronfa John Ellis.

**Hoffwn fel golygydd *Eco'r Wyddfa* ymddiheuro i'r hogia am "fethu" cael ffotograffydd i fynd i dynnu lluniau o'r Marathon Snwcer. Ni ddylid beio neb ond y golygydd am y methiant. Llongyfarchion yr *Eco* i chwi i gyd. Hoffwn apelio hefyd i rywun â diddordeb mewn ffotograffiaeth yn ardal Deiniolen a Dinorwig os oes modd iddo/iddynt gynorthwyo gyda'r tynnu lluniau.**

## *Tro am yr Ynys Werdd*



**GOBAITH mawr tîm pêl-droed iau Deiniolen yw cael mynd drosodd i'r Iwerddon tua mis Medi i chwarae dwy gêm bêl-droed. Mae gweithgareddau eisoes wedi cymryd lle i godi arian i'w cynorthwyo i fynd drosodd. Dyna oedd y bwriad tu ôl i'r gêm fawr ar gae Ffordd Padarn Llanberis yn ystod y mis. Gêm rhwng mamau'r hogia, ac adran arbennig o'r BCCT.**

**Disgrifiwyd y ddau dîm gan Huw Bara fel "the greatest discovery since penicillin". Hei lwc i hogia Deiniolen. Cafwyd Disco yn y pentref gan Melfyn a Ken a'r grŵp lleol 'Exit" yn cymryd rhan.**



**TÎM IAU DEINIOLEN
CYNGHRAIR GWYRFAI**
Yn sefyll o'r chwith i'r dde: *Gwilym Williams (Trysorydd); Gwynfor Williams; Douglas Roberts (Reffari); Bryn Hughes; David Evans; David Brailsfod; Elfed Williams (rheolwr); Noel Owen; Kelvin Lewis; Karl Williams John Jones*
**Penlinio o'r chwith i'r dde:**
*Eurwyn Owen; Kevin Jones. Carl Wannop; Gwyndaf Jones. John Williams; Malcolm Allen; Dilwyn Williams.*

# NANT PERIS

**CYFARCHION PEN-BLWYDD** – i Mr. William S. Jones, Elidir ar gyrraedd ei 87 mlwydd oed ar y 24ain o Fehefin. Dymunwn iddo eto lawer blwyddyn yn ein plith a phob bendith.

Erstalwm, 21ain oedd yr oed i gael 'goriad y drws' ond daeth tro ar fyd. Heddiw, deunaw oed yw'r diwrnod mawr. Llongyfarchion i Hefina Pritchard, Bronallt ar ei phen-blwydd yn 18 oed ar yr 22ain o Fehefin.

**GENI** – Llongyfarchion i Mr. a Mrs. D. I. Jones, Tir Bach, Llanllyfni ar eni eu merch fach Nia Wyn ar y 18fed o Fehefin. Da gennym ddeall fod y ddwy yn dod ymlaen yn iawn a bod croeso mawr i Nia gan Dylan ei brawd.

**PRIODAS** – Yng Nghapel Rehoboth ddydd Sadwrn y 19eg o Fehefin unwyd mewn priodas Mrs. Pat Aagard, 5 Glanrafon a Mr. Bernard Cooper. Gwasanaethwyd gan y Parch. John Owen, B.A., B.D. a'r organydd oedd Mr. Huw Peris Pritchard. Yng ngwesty Fictoria y cynhaliwyd y wledd a phawb wedi mwynhau eu hunain. Dymunwn i'r ddau bob bendith a hapusrwydd yn eu bywyd priodasol.

**OEDFA OLAF** – Dyna oedd oedfa nos Sul, Mehefin 12 yn Rehoboth, pryd y cynhaliwyd y gwasanaeth olaf gan y Parch. John Owen, B.A., B.D. cyn ymadael i'w ofalaeth newydd yn Rhuthun. Cymerwyd y gwasanaeth dechreuol gan Mr. Tom G. Pritchard ac yna treuliwyd rhan gyntaf y gwasanaeth yn anrhegu'r Parch. a Mrs. John Owen, Dafydd a Huw ar ran yr aelodau yn Rehoboth. Cyflwynwyd siec i'r Parch John Owen, a darlun olew i Mrs. Anne Owen gan Mr. William H. Davies, Cae Gwyn, ein haelod hynaf. Yna cyflwynwyd Tocyn Llyfr i'r hogia' ar ran yr aelodau a phlant y Gobeithlu gan Mrs. Rhian Pritchard, Tŷ Isa fel arwydd bychan o wasanaeth, a ffyddlondeb y gweinidog a'i briod i ni yn y Nant. Cafwyd gair ar ran yr eglwys gan Mr. John W. Elis. Yna gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd dan arweiniad y Parch. John Owen. Bydd hwn yn wasanaeth a gofir yn hir yn y Nant. Dymunwn i Mr. a Mrs. Owen, Dafydd a Huw bob bendith yn eu cartref newydd.

**YN GWELLA** – Da iawn gennym ddeall fod Mr. Arthur Roberts, Gwyndy wedi dod adref ar ôl bron i dri mis yn yr ysbyty. Pob dymuniad da iddo.

**Y LLYTHYRDY** – Dymunwn yn dda i Mr. a Mrs. O.W.Humphreys sydd bellach wedi rhoi'r gorau i gadw'r Llythyrdy a'r siop yn y Nant, ar ôl cyfnod o saith mlynedd.

# BRYN REFAIL



**CYDYMDEIMLO** – Cydymdeimlwn fel ardal â Mrs. Nannie Evans, Garston, Lerpwl a Mrs. Betty Pritchard, Rhosgadfan ar farwolaeth eu mam, Mrs. Ellen Jones yn 86 mlwydd oed. Treuliodd Mrs. Jones ran helaethaf ei hoes ym Mrynrefail yn y Cytir ac yna yn 1 Tremeilian.

**CARNIFAL Y PENTREF** –

Y plant i gyd yn hapus
Yng nghanol hwyl a sbri,
Oll yn eu dillad ffansi
Yn dathlu'r Jiwbili.

Dyna sut y disgrifiodd plant ysgol y Babanod ddydd dathlu'r Jiwbili. Beirniadwyd y gwisgoedd ffansi gan Mrs. Ann jones a Miss Gwyneth Parry, Llanberis. Swyddogion y Pwyllgor trefnu oedd Mr. David Ellis, (Llywydd); Mrs. Rhian Jones (Ysg.); Mrs. Pat Jones (Trysorydd). Wedi'r beirniadu, cafwyd gorymdaith i bont y pentref ac yna tynnwyd lluniau gan Mr. Welsby, Tremallt. Cyflwynwyd blodau i'r beirniaid gan Paula a Marie, disgyblion ieuengaf yr ysgol. Yn ystod y te parti, rhannwyd cwpanau'r Jiwbili i bob plentyn ac ymysg danteithion eraill cafodd pawb flasu teisen a wnaed yn arbennig ar gyfer yr achlysur gan Mrs. Pat Jones, Cae Coch. Enillwyd y raffl (basgedaid o fwydydd) a gyflwynwyd gan Glwb y Mamau gan Mrs. Helen Roberts, Llwyncoed Bach. Gyda'r nos, mwynhaodd yr ieuenctid ddisco a barbeciw a gynhaliwyd yn Hafod Meurig. Diolch i bawb am eu rhoddion a u cymorth, ac yn arbennig i Ddosbarth Ysgol Sul Mr. Elfed Roberts am eu cyfraniad haelionus i bwrcasu'r cwpanau.

**YSGOL Y BABANOD** Dathlodd plant yr ysgol y Jiwbili drwy fynd am drip ar drên bach Llyn Padarn. Diolch i Mr. Wyn Griffith (gynt o'r Llythyrdy) a Mr. Reg King am gofio am y plant unwaith eto.

Ddydd Mawrth, Mehefin 14eg, cafodd y plant a staff yr ysgol brynhawn difyr yn Theatr Seilo, Caernarfon yn gwylio perfformiad o'r 'Pibydd Brith' gan Gwmni Theatr Cymru.

**CLWB Y MAMAU** – Nos Fercher, Mehefin 1af, bu'r aelodau am Drip Dirgel pryd yr ymwelasant â Bodeilio, Talwrn, lle mwynhawyd arddangosfa o grochenwaith a chrefftau arbennig eraill. Cafwyd swper ysgafn ym Motel y Star, Gaerwen ar ddiwedd y noson.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Yn y cyfarfyddiad o'r gangen y mis diwethaf mwynhaodd yr aelodau Mrs. M.A. Thomas, Deiniolen yn dweud ei hanes fel athrawes ynghyd â detholiad o 'Straeon Wil'. Trefnwyd y baned gan Mrs. Eifiona Jones a Mrs. Megan Jones.

**CLWB YR HENOED** – Nos Fawrth, Mai 31ain difyrwyd aelodau'r Clwb gan Barti Glynrhonwy ynghyd ag Annette Olwen Marina a Mr. Evan Bryn Roberts, Dinorwig. Paratowyd lluniaeth gan Mrs. Mair Williams a Mrs. Jennie A. Roberts. Ar y 14eg o Fehefin, cafwyd swper campus wedi ei baratoi gan y Pwyllgor fel rhan o ddathliadau'r Jiwbili yn y pentref. Cyflwynodd Mrs. Pat Jones, Cae Coch gacen Jiwbili ar gyfer y swper. Dymuna'r Clwb hefyd ddiolch i Eirwyn a Shirley Jones Seland Newydd am y rhodd a dderbyniasant trwy law Mrs. Hannah J. Jones.

**DYMUNIADAU DA** Bydd Mrs. Knox yn dod i ben ei gwaith yn Siop Elidir yn ystod yr wythnosau nesaf. Dymunwn yn dda iddi hi a'r teulu sydd eisoes wedi cartrefu yn Llanrug. Ein dymuniadau da hefyd i Mr. a Mrs. P. Hopkins, Rhian ac Iwan sydd yn gwneud eu cartref yn Llwyncelyn. Croeso i'n plith.

**TRIP YR YSGOL SUL** – Bydd y trip blynyddol yn mynd ar Orffennaf 9fed i Landudno ac yna ymlaen i'r Rhyl. Bydd y bws yn dychwelyd drwy Landudno yn yr hwyr. Derbynnir enwau a blaendal gan Miss Gwyneth Green, Llwyncoed Bach.

**LLWYDDIANT** – Llongyfarchiadau i Mr. W.H.Griffith, Llys ar ei lwyddiant yn Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen pryd y cipiodd y prif wobrau yn adran arddangos ceffylau gwedd. Bu'n llwyddiannus hefyd yn Aberystwyth ac ennill gwobr arbennig.

# DINORWIG

**YN GWELLA** – Da gweld Mrs. M.J. Jones, 7 Bro Elidir, Dinorwig a Mrs. Glenys Jones, 3 Bro Elidir, yn gwella wedi bod mewn ysbytai ym Mangor. Gwellhad buan fo iddynt ac i eraill o'r ardal sy'n cwyno.

**GŴYL BREGETHU** – Cynhaliwyd Gwyl Bregethu Flynyddol Eglwys Sardis (B) ar y Sulgwyn. Y gennad oedd y Parch. Goronwy Wynne, Llanymddyfri.

**PRIODI** – Priodwyd Miss Shirley Phillips, 6 Maes Eilian, Dinorwig a Mr. Glyn Jones, 23 Maes Llewelyn, Aberffraw, Mon yn Eglwys St. Mair, Dinorwig. Hefyd Miss Rhian Wyn Thomas, Bwlch Gwynt, Dinorwig a Mr. David Brynley Evans, 15 Glyn Coch Terrace, Pontypridd yn Eglwys Sardis (B). Dymuniadau gorau i'r ddau gwpwl yn eu byd newydd.

**LLONGYFARCHIADAU** – Llongyfarchir plant Parti Cân Actol Ysgol Gwaun Gynfi ar eu gwaith yn ennill y wobr gyntaf dan 12 oed yn Eisteddfod yr Urdd yn y Barri. Chwaraewyd y piano iddynt gan Miss Annette B. Roberts, Tŷ'r Ysgol ac 'roedd ei chwaer, Miss Marian B. Roberts yn y Parti.

**DATHLIADAU** – Yn ddiweddar bu Mr. O.R.Williams, 2 Bro Elidir yn cymryd rhan yn nathliad 75 mlynedd yn hanes Cartref Bontnewydd, fel un o'r 'hen hogia'. Cymrodd ran mewn rhaglen H.T.V. ar ddathlu 50 mlynedd yn hanes Coleg Harlech gyda nifer o gyn-fyfyrwyr hefyd.

**Y JIWBILI** – Cafwyd Te Parti wedi'i drefnu gan chwiorydd yr ardal yn y Ganolfan i'r plant a'r pensiynwyr dydd Iau i ddathlu'r Jiwbili.

**NOSON TE A BISGEDI** – Nos Iau, Mehefin 16 yn y Ganolfan cynhaliwyd Te a Bisgedi gyda Ffair Werthiant. Aeth yr elw i gyllid y Ganolfan.

**DIOLCHIADAU** – Dymuna Miss Annette B. Roberts, Tŷ'r Ysgol ddiolch o galon i'r meddygon a'r nyrsus yn Ysbyty Môn ac Arfon am eu gwasanaeth iddi tra bu yno yn ddiweddar. Hefyd i'r teulu a'r perthnasau a'r llu cyfeillion am eu caredigrwydd a'u cardiau tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

**CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL** – Dydd Sadwrn, Mehefin 19 aeth aelodau'r Gymdeithas am drip i Landudno. Wedi mwynhau ychydig oriau yno ar lan y môr ac yn siopa, daethpwyd adref trwy Ddolwyddelen, Porthmadog a Bwlch Llanberis. Mwynhawyd y diwrnod yn fawr. Trefnwyd y trip gan y Mri. Gwilym Ll. Williams, Deiniolen Motors; Robert Williams, 12 Maes Eilian a David L. Hughes, 2 Maes Eilian.


Y MAJESTIC, CAERNARFON
Nos Sul, 3 Gorffennaf 1977 am 7.30 p.m.

Cyngerdd
Codi'r Llenni

(ar ymgyrch Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon a'r Cylch 1979)
GYDA
CÔR MEIBION CAERNARFON - TELYNORES ERYRI
TELYNORES GELERT - LEAH OWEN - DAFYDD IWAN
ROBERT WYN ROBERTS
*Arweinydd: I.B. GRIFFITH*
Tocynnau 75c (Oedolion) 50c (Plant a Phensiynwyr)
ar werth yn lleol, wrth y drws ar y noson, neu oddi wrth JOHN ROBERTS, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug.
BARGEN Y FLWYDDYN! NOSON FYTHGOFIADWY!

E.W.&M.WILLIAMS

Y BECWS
DEINIOLEN
FFÔN : LLANBERIS 232
BARA FFRES – TEISENNAU BLASUS !
*(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)*
***
DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER
YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN,
PENISARWAUN, LLANRUG a BETHEL

# Dyddiadur y Mis

**Gwener 1: Deiniolen:** Gwibdaith Flynyddol Merched y Wawr i Fodeilio, Talwrn, Ynys Môn. **Waunfawr:** Gwibdaith Sefydliad y Merched i Gaer Belan Arwerthiant yn Neuadd yr Eglwys – yr elw er budd y Carnifal. **Penisarwaun: Disco y Plant yn Neuadd yr Eglwys.** Plant Cynradd o 6.30 – 8.00 a'r Plant Uwchradd o 8.00–10.00

**Gorffennaf 2–9: Deiniolen:** Wythnos Garnifal

**Sadwrn 2: Cwm-y-glo:** Y Carnifal. **Llanberis:** Gwibdaith Flynyddol yr Ysgolion Sul i'r Rhyl. **Bethel:** Gwibdaith Flynyddol yr Ysgol Sul i'r Rhyl. **Waunfawr:** Gwibdaith Ysgol Sul Capel Croesywaun i Fae Colwyn. Gwibdaith Ysgol Sul Capel Bethel i'r Rhyl.

**Sul 3: Cyngerdd Mawreddog yn y Majestic, Caernarfon i lansio Ymgyrch Eisteddfod 1979. Cymerir rhan gan: Côr Meibion Caernarfon, Telynores Eryri, Telynores Gelert, Dafydd Iwan Leah Owen, Robert W. Roberts. I ddechrau am 7.30 Tocynnau: 75c a 50c.**

**Llun 4: Llanberis:** Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2.00 o'r gloch Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30

**Mercher 6: Llanberis:** Bingo dan nawdd y Gangen Blaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30

**Iau 7: Waunfawr:** Sefydliad y Merched **Llanberis:** Noson dan nawdd Cangen Plaid Cymru yn y Ganolfan am 7.30 pryd y ceir sgwrs gan y Parch, Hugh J. Hughes

**Gwener 8: Penisarwaun:** Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. **Llanberis:** Clwb yr Henoed. Disco yn y Ganolfan am 8 o'r gloch.

**Sadwrn 9: Deiniolen:** Y Carnifal. **Brynrefail:** Gwibdaith Flynyddol yr Ysgol Sul i Landudno a'r Rhyl. Mabolgampau Sir Eryri yr Urdd ar gae Mabolgampau Coleg y Normal, Bangor.
**Llanberis:** Cystadleuaeth Bysgota ar Lyn Padarn.

**Gorffennaf 10–16: Wythnos Garnifal Llanberis**

**Sul 10: Llanberis:** "Noson o Gân" yng Nghapel Coch am 8 o'r gloch

**Llun 11: Llanberis:** Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. Gyrfa Chwist dan nawdd y Pwyllgor Carnifal yn y Ganolfan am 7.30. **Deiniolen:** Sefydliad y Merched

**Mawrth 12: Waunfawr:** Pwyllgor yr Eisteddfod Genedlaethol yn yr ysgol am 7.30. **Llanberis:** Bingo yn y Ganolfan am 7.30

**Mercher 13: Deiniolen:** Pwyllgor yr Eisteddfod Genedlaethol yn yr ysgol. **Waunfawr: Gemau** Pêl-droed 5 bob ochr y Carnifal am 6.30. **Llanberis:** Disco i blant Ysgolion Cynradd yn y Ganolfan am 7 o'r gloch. Gornest derfynol "Dartiau" yng Ngwesty'r Castell am 8 o'r gloch.

**Iau 14: Waunfawr:** Gemau pêl-droed 5 bob ochr y Carnifal am 6.30. **Llanberis** "Gemau Giamocs" yn Ddôl y Goeden am 6.45

**Gwener 15: Llanberis:** Mabolgampau yn Ddôl y Goeden am 5.45. **Waunfawr:** Mabolgampau a choroni Brenhines y Carnifal

**Sadwrn 16: Waunfawr:** Y Carnifal. **Llanberis:** Y Carnifal. **Cwm-y-glo:** Gwibdaith y Pensiynwyr i Landudno **Deiniolen:** Taith Ddirgel Cangen Plaid Cymru

**Llun 18: Llanberis:** Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30

**Mercher 20: Llanberis:** Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30

**Iau 21: Llanrug:** Gwibdaith Clwb Blodau'r Grug i Gapel Salem ac Ardudwy. **Llanberis:** Sefydliad y Merched – arddangos crefft gan Mrs. Edwards, Caernarfon

**Gwener 22: Penisarwaun:** Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30 **Llanberis:** Clwb yr Henoed

**Llun 25: Llanberis:** Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30


**Mawrth 26: Waunfawr:** Cyngor Cymuned

### DYDDIAU I'W COFIO

**Awst 12 a'r 13 – Rasus Cŵn Defaid Betws Garmon**

**Awst 20 – Cynhelir Ffair Sborion yn "Feed My Lambs" Caernarfon, dan nawdd Canghennau Plaid Lafur Dyffryn Peris**

# Croesair Rhif 15



### AR WERTH

**Set o hen lestri pren helyg (willow pattern)** neu gyffelyb i ddresel Gymreig: Llanberis 665.

**Nid yw'n costio dim i hysbysebu yn 'AR WERTH' ac 'YN EISIAU'.** Ffoniwch Llanberis 220.

### YN EISIAU

**Ffrâm drws (standard) pren – fel newydd: Caernarfon 3719**

**Lobster pot playpen – £5.** Porter 4 Bron y Waun, Penisarwaun.

**Cottage Three Piece.** 2 set o gyfars £12. 12 Rhes y Faenol, Llanberis.


**CYMDEITHAS DIOGELU HEN BEIRIANNAU AMAETHYDDOL GOGLEDD CYMRU**

# Diwrnod Dyrnu

**SADWRN, AWST 20, 1977**
**am 2 o'r gloch**
**yng**
**NGHOLEG GLYNLLIFON**
(ger Caernarfon)

Boilar Stêm  Hen Dractors  Crefftau gwledig
Injians oel a llawer mwy

*Mynediad: 50c (Plant a phensiynwyr 10c)*


AR DRAWS:

1. Mur llesg? Mae'n llegach (7)
5. Heb fod yn rhy bell (5)
8. Mae'n resyn, enw'r ferch yma (5)
9. Wedi synnu (7)
10. Distrywio neu ddifa (9)
12. Ni wlychodd hwn ei draed er y dilyw (3)
13. Galluog (6)
14. Derbyniad cynnes (6)
17. Heddiw oedd y diwrnod yma unwaith (3)
18. Dyma lle mae merch yn gwisgo'i modrwyau (2.2.5)
20. Creadur (7)
21. Tomen o gerrig (5)
23. Main (5)
24. Amser i roi heibio'r gwaith (7)
18. Colli sbîd (5)
19. "Digonol yn dy fraich i ni, Fe'n ceidw yn ... (5)
22. I yrru'r saeth (3)

I LAWR:

1. Un mud (anagram) (5)
2. Mae'n chwerw er yn gysur (3)
3. "Amrywiol ryw ... pur, A ffrwythau'r paradwysaidd dir" (7)
4. Cwpannau, soseri, platiau (6)
5. Symud ar wyneb dŵr (5)
6. Byddai gormod o hwn hyd yn oed yn tagu Tseini (5.4)
7. Un o bentrefi arall yr ardal (7)
11. Ond Iddewon (anagram) (9)
13. Perchnogaeth (7)
15. Cyfenw poblogaidd (7)
16. Llai na cheffyl (6)

### ATEBION CROESAIR RHIF 14

**AR DRAWS:** 1. Crafanc; 5. Cegin; 8. Llewyg; 9. Ehediad; 10. Digofaint; 12. Iâl; 13. Croesi; 14. Ehedeg; 17. Doe; 18. Clodforwn; 20. Eitemau; 21. Newid; 23. Dirwy; 24. Oraclau

**I LAWR:** 1. Colled; 2. Acw; 3. Atgofus; 4. Coelio; 5. Crefft; 6. Geiriadur; 7. Nadolig; 11. Gloddestwr; 13. Cydweld; 15. Hufenfa; 16. Moduro; 18. Cymry; 19. Nadau; 22. Wil

**Cyfrifir y llythrennau canlynol fel UN llythyren:**

**CH; DD; FF; NG; LL; PH; RH; TH**

**Gwobr o £1 i'r ateb cywir cyntaf a dynnir ar ôl i'r holl gynigion ddod i law**

Anfoner y cynigion fel arfer i:

**Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr Llanberis**

### ENILLYDD CROESAIR RHIF 14

**Mrs. Margaret Jones, Graianfryn, Waunfawr.**

**ENW**......................................................

**CYFEIRIAD**................................................

.............................................................

*Dychweler i Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr, Llanberis.*

# CHWARAEON

## Clwb Pêldroed Llanberis



*Tîm Pêl-droed Llanberis Mai 1977: Elfed Morris, Emyr Roberts, Ieuan Roberts, Kelvin Jones, Bruce Edwards, Selwyn Allsup, Gareth V. Owen, Malcolm Ll. Jones, Geraint Jones. Blaen: Iwan Evans, John Pritchard, Ray Harding, Barry Pitts, Gwilym Williams a Gareth Williams.*

**Pedwerydd oedd safle terfynol y Clwb yng Nghynghrair Arfon a'r Cylch y tymor diwethaf, a cholli fu eu hanes yn rownd derfynol Cwpan Penrhyn yn erbyn 'Mountain Rangers'. 'Doedd o ddim yn dymor gwael, a byddai llawer o glybiau'r gynghrair yn gorfoleddu mewn canlyniadau o'r fath, ond nid felly Llanberis.**

**Yn ystod y chwedegau y nhw oedd Tîm y Gynghrair, yn ysgubo pob gwobr i'w coffrau, ac yn codi ofn ar dimau gorau'r cynghreiriau eraill. Mae'r Clwb a'r cefnogwyr wedi eu magu ar lwyddiant, maen nhw wedi arfer ennill, ac felly tymor llwm iawn fu hwn. Mae rhyw sibrwd o gwmpas y pentref nad ydi "petha" ddim digon da", ac o astudio eu hanes yn y chwedegau, mae'n hawdd iawn cydymdeimlo â'r sibrydwyr.**

Yn y cyfnod hwnnw, rhwng 1960 a 1970, bu Llanberis yn bencampwyr Cynghrair Arfon saith gwaith. Enillwyd Cwpan Deanfield ganddynt ddwywaith, y Penrhyn bedair gwaith, a'r Alves bum gwaith. Ar ben hyn, enillwyd Cwpan Iau Gogledd Cymru deirgwaith, a Chwpan Amatur Gogledd Cymru ddwywaith. Ofer fyddai ceisio dyfalu cyfrinach eu llwyddiant yn y cyfnod hwnnw, ond gwn fod yr un chwaraewyr wedi eu cynrychioli'n weddol sefydlog drwy'r cyfnod, a bod y dealltwriaeth a'r berthynas rhyngddynt yn un agos iawn. Gwelir isod dîm 1964/65, ac mae llawer ynddo fu'n chwatae'n gyson am y deng mlynedd a mwy. Dim ond Cwpan Alves, Penrhyn, Deanfield ac un Iau Gogledd Cymru a enillwyd ganddynt y tymor hwnnw!



*Gwyndaf Jones Arwel Jones, Arwyn Roberts, Bruce Edwards Ifan Owen, Arfon Roberts, Alan Jones, Llew Roberts, Bobby Haines. Blaen: Gwilym Williams, John Roberts, Richie Jones, Brian a Gwyn Edwards.*

Ni fu timau gwael yn y pentre' yn y saithdegau ychwaith. Gwelwyd y crysau du a melyn mewn amryw rownd derfynol, ac yn y tymor 1975/76 y nhw aeth â'r Cwpan Alves a'r Deanfield, a cholli yn ffeinal y Penrhyn.

### TYMOR 1976–1977

Swyddogion y Clwb y llynedd oedd: I.Ellis Jones (Llywydd); Meirion Griffith (Cadeirydd); Len Jones (Is-gadeirydd); Eurwyn Thomas (Ysgrifennydd); Arfon Phillips (Trysorydd); Gwyn Williams (Hyrwyddwr); Bruce Edwards (Rheolwr); Kelvin Jones (Capten); Cledwyn Jones (Cymorth Cyntaf). Mae pedwar aelod am oes yn y Clwb, sef Lal Jones, Richard Jones, John Roberts a W.D.Williams, ac Elwyn Davies, Gwilym Owen, Robin Jones, John Williams, Heddwyn Jones ac Ifan I. Jones oedd aelodau'r pwyllgor.

Mae'n amlwg oddi wrth yr ystadegau a gesglais nad yw Llanberis yn cefnogi'r dywediad Saesneg mai ymosod yw'r dull gorau o amddiffyn, gan fod ar eu llyfrau bedwar sy'n cyfrif eu hunain yn flaenwyr, tri chwaraewr canol y cae, a deuddeg o gefnwyr 'Rwy'n siwr fod gwers i'w dysgu yma, un a fyddai'n werth ei hystyried tra'n ffurfio carfan chwaraewyr y Clwb at y tymor nesaf.

Y Golgeidwad oedd **IEUAN ROBERTS** o'r Felinheli. Mae'n 23 oed ac yn athro ysgol. Ymysg y dwsin mae **ELFED MORRIS** o Lanberis, sy'n 18 oed ac yn gweithio mewn banc; **KEN EVANS**, 25 oed o Fethesda, **GARETH OWEN**, 22 oed o Lanberis; **MALCOLM Ll. JONES**, 19 oed o Ddeiniolen; **EMYR ROBERTS**, 19 oed o Fethel; **DAVID JOHN PRITCHARD**, myfyriwr 21 oed o Lanberis; **GARETH WILLIAMS**, bachgen ysgol o Lanberis; **IAN PRITCHARD JONES**, saer coed 19 oed o Lanberis a **GARETH V. OWEN**, 21 oed eto o Lanberis. Mae'r ddau arall yn hen gyfarwydd â chwarae i'r Clwb, yn wir mae'r ddau yn y darlun o'r tîm 1964/65. Mae **ARWYN ROBERTS**, sy'n 31 oed bellach, "wedi riteirio", ond wedi arwyddo er mwyn gallu eu helpu o dro i dro. Mae casgliad o 28 tlws ganddo i gofio am ei 15 tymor fel chwaraewr i Lanberis. **BRUCE EDWARDS** yw'r deuddegfed, ac ef oedd Rheolwr y Clwb. Bu yntau'n chwarae iddynt drwy gyfnod y chwedegau, a daeth adre'n ôl yn 1974 ar ôl tri thymor gyda Llangoed ar Ynys Môn. Mae 37 o dlysau gan hwn, wedi eu hennill ers 1961. Mae'n 34 oed bellach a hwn oedd ei dymor olaf gyda'r Clwb.

**KELVIN JONES**, 22 oed o Lanberis oedd y Capten a hwn oedd ei bumed tymor efo'r Clwb. **SELWYN ALLSUP** ac **ARWYN ROBERTS**, y ddau o Lanberis sy'n cwblhau'r triawd yng nghanol y cae. Mae Selwyn yn 29 oed ac yn athro yn Ysgol Brynrefail. Hwn oedd ei wythfed tymor efo'r Clwb, ac ef fydd y Rheolwr y tymor nesaf. Clerc yng Nghaernarfon ydi Arwyn, a bu'n cynrychioli nifer o glybiau eraill cyn ymuno a Llanberis.

**RAY HARDING**, 24 oed o Fangor fu eu blaenwr mwyaf llwyddiannus, yn sgorio 28 gwaith iddynt yn ystod y tymor. Mae profiad helaeth o'r gêm ganddo, a bu'n chwarae yn Ne Affrica am bum mlynedd, a hwn oedd ei bedwerydd tymor yn Llanberis. Un o Fethel ydi **GWILYM WILLIAMS**, clerc 30 oed yn Ferodo. Mae yntau hefyd yn y darlun 1964/65, a hwn oedd ei 13fed tymor efo'r Clwb. Mae'n amlwg nad ydi o wedi colli fawr o'i gyflymdra, gan iddo sgorio 23 o weithiau y llynedd.

**BARRIE PITTS** ac **IWAN EVANS**, y ddau o Lanberis, oedd y blaenwyr eraill. 'Roedd Barrie ar ei ail dymor, a bu'n cynorthwyo Caernarfon cyn ymuno â'r Clwb. Deunaw oed ydi Iwan, a hwn oedd ei dymor cyntaf yn y Gynghrair. Llwyddodd i daro'r rhwyd 13 o weithiau, ac yn hwn, os caf i fynegi barn bersonol, y mae deunydd peldroediwr rhagorol.

Bydd y tymor nesaf yn dechrau ym mis Medi, a dymunwn yn dda i'r Clwb a'r Rheolwr newydd. Carwn hefyd fynegi ein diolch diffuant i Lal Jones am ei adroddiadau drwy'r tymor.

## HOWYN WRTH Y LLYW

Yng nghyfarfod blynyddol Clwb Pêldroed Llanrug ar yr 21ain o'r mis penodwyd Howyn Jones, bachgen o Lanberis, yn Rheolwr/Chwaraewr am y tymor 1977/78.

Mae 'Big H' yn gawr o ddyn ac yn adnabyddus i bawb fu'n gwylio gemau'r Gynghrair yn ystod y tymhorau diweddar. Bu'n gofalu am dîm y Coleg Normal y llynedd, a theimlaf y bydd ei allu, ei brofiad a'i awdurdod o fudd i'r Clwb, nid yn unig ar y cae ond ar yr ochr weinyddol hefyd.

Enillodd anrhydeddau lawer tra'n ddisgybl yn Ysgol Syr Huw Owen, Caernarfon, ac aeth yn brentis oddi yno i Glwb Pel-droed Wrecsam, lle bu'n datblygu ac adeiladu ar ei allu. Ar ôl cyfnod llwyddiannus yno treuliodd dymor fel peldroediwr proffesiynol yn Awstralia, ac ar ôl dychwelyd aeth i'r Coleg Normal i gael ei hyfforddi'n athro. Mae bellach wedi cwblhau ei gwrs, ac wedi sicrhau swydd iddo'i hun yn Ysgol Brynrefail, i ddechrau ym mis Medi. Mae'n fachgen poblogaidd, a chanddo lawer o gysylltiadau ym myd y peldroedwyr, ac 'rwy'n siwr y bydd wedi dylanwadu ar rai o safon uchel i ymuno â'r Clwb cyn dechrau'r tymor Pob lwc iddo yn ei swydd newydd.

Swyddogion eraill y Clwb am y tymor fydd: R.O.Thomas (Cadeirydd); D.W.Thomas (Is-gadeirydd); B.Davies (Ysgrifennydd); J.Ellis (Trysorydd); G. Orritt (Hyrwyddwr); G.Lloyd Jones (Rheolwr Tim dan 15 oed).

Hysbyswyd y cyfarfod fod y gysgodfa i'r cefnogwyr wedi ei orffen, ac y bydd y cae yn cael ei ail hadu yn ystod yr haf. Mae posibilrwydd y bydd y Clwb yn cynnal tîm o dan 18 oed ar gyfer Cwpan Ieuenctid Cymru a Chwpan Iau Gogledd Cymru, a bwriedir cystadlu am Gwpan Cyfryngol Cymru am y tro cyntaf y tymor nesaf.

## Cystadlu Yng Nghwmbrân

Bydd Wyn Evans o Seion a Robin Williams o Lanrug yn cynrychioli Sir Gwynedd ym Mabolgampau Cenedlaethol Cymru yng Nghwmbrân ddydd Sadwrn, yr ail o Orffennaf.

Rhedeg yn y ras dros 3 mil medr i rai dan 17 oed fydd Wyn, a Robin yn taflu'r ddisgen yn y dosbarth i fechgyn o dan 15 oed.

Byddant yn cystadlu yn erbyn goreuon ysgolion Cymru, ac eisoes bu'r ddau yn llwyddiannus yng Nghyfarfodydd Sir Arfon a Gwynedd.

Robin sy'n dal record Gwynedd am daflu'r ddisgen, a gobeithir y daw â record Cymru'n ôl i Lanrug.

Yn anffodus, ni chaiff Cheryl Edwards, enillydd y gystadleuaeth taflu pwysau i'r genethod ieuaf ym Mabolgampau Gwynedd fynd i Gwmbrân gan nad oes gystadleuaeth i'r plant ieuengaf yn y Mabolgampau Cenedlaethol.